# Rhaglen Gyflawn

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD CBC Y GOGLEDD**

Dyddiad ac Amser

**9.30 y.b., DYDD GWENER, 15FED MAI, 2026**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

***Am fynediad cyhoeddus, cysylltwch â ni***

Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679556**

**Rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru**

**IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD CBC Y GOGLEDD**

**Aelodau a phleidlais**

**Y Cynghorwyr**

| | |
|---|---|
| Gary Pritchard | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Nia Jeffreys | Cyngor Gwynedd |
| Julie Fallon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Jason McLellan | Cyngor Sir Ddinbych |
| Dave Hughes Mark | Cyngor Sir y Fflint |
| Pritchard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

**Aelodau Cyfetholedig – Heb bleidlais**

| | |
|---|---|
| Yr Athro Edmund Burke | Prifysgol Bangor |
| Yr Athro Joe Yates | Prifysgol Wrecsam |
| Yana Williams | Coleg Cambria |
| Aled Jones-Griffith | Grŵp Llandrillo Menai |
| David Roberts | Cadeirydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol |
| Edgar Wyn Owen | Parc Cenedlaethol Eryri |
| Dave Penrith | Ymgynghorydd Anweithredol |

**Prif Weithredwyr Cynghorau Cyfansoddol**

| | |
|---|---|
| Dylan Williams | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Dafydd Gibabrd | Cyngor Gwynedd |
| Rhun ap Gareth | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Helen White | Cyngor Sir Ddinbych |
| Neal Cockerton | Cyngor Sir y Fflint |
| Alwyn Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

**Swyddogion yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Alwen Williams | Prif Weithredwr y CBC |
| Mark Watkins | Swyddog Monitro |
| Helen Edwards | Dirprwy Swyddog Monitro |
| Dewi Morgan | Prif Swyddog Cyllid |
| Hedd Vaughan-Evans | Cyfarwyddwr Portffolio |
| Nia Medi Williams | Uwch Swyddog Gweithredol |

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL — 5 - 12

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2026 fel rhai cywir.

## 5. CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU - ADRODDIAD PERFFORMIAD A RISG CHWARTER 4 — 13 - 41

Hedd Vaughan-Evans, Cyfarwyddwr Portffolio i gyflwyno'r adroddiad.

## 6. SEFYLLFA ALLDRO REFENIW A CHYFALAF AR GYFER 2025/26 — 42 - 54

Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC) a Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid, i gyflwyno'r adroddiad.

## 7. CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU - CRONFA CHWYDDIANT COSTAU — 55 - 58

Hedd Vaughan-Evans, Cyfarwyddwr Portffolio, i gyflwyno'r adroddiad.

## 8. PARTH BUDDSODDI SIR Y FFLINT A WRECSAM: PROSIECTAU RHAGLEN ARLOESI CYCHWYNNOL — 59 - 65

Iain Taylor (Rheolwr Rhaglen Parth Buddsoddi) i gyflwyno'r adroddiad.

Mae Atodiadau 1-3 yn eithriedig, er sylw Aelodau'r Cyd-bwyllgor yn unig, yn unol â Paragraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972: Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

## 9. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972: Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion

ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Er bod diddordeb y cyhoedd mewn tryloywder ac atebolrwydd, mae hyn yn cael ei orbwyso ar hyn o bryd gan yr angen i ddiogelu gwybodaeth fasnachol sensitif o ystyried y byddai datgelu yn debygol o ragfarnu trafodaethau parhaus a gallu'r awdurdod i sicrhau'r gwerth gorau a diogelu'r defnydd priodol o arian cyhoeddus.

## 10. DYFODOL VENUE CYMRU - CAIS AM NEWID AC ACHOS BUSNES AMLINELLOL WEDI'I DDIWEDDARU, MAWRTH 2026

Elliw Hughes, Rheolwr Rhaglen y Cynllun Twf, i gyflwyno'r adroddiad.

## 11. HWB ECONOMI WLEDIG GLYNLLIFON ACHOS CYFIAWNHAD BUSNES AR GYFER DATBLYGIAD LLAETH CYNALIADWY - DIWEDDARIAD

Elliw Hughes, Rheolwr Rhaglen y Cynllun Twf, i gyflwyno'r adroddiad.

## 12. CAIS I YMESTYN Y CYFNOD DILYSRWYDD AR GYFER TRI PHROSIECT RHAGLEN TIR AC EIDDO

David Mathews, Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo, i gyflwyno'r adroddiad.

**IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD CBC Y GOGLEDD**
**06/02/2026**

**Yn bresennol:**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Jason Mclellan (Cyngor Sir Ddinbych) (Is-gadeirydd).

Richard Jones (Cyngor Sir y Fflint), Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd) a Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn).

**Aelodau Cyfetholedig:** Yr Athro Paul Spencer (Prifysgol Bangor), Yr Athro Joe Yates (Prifysgol Wrecsam), Steve Jackson (Coleg Cambria), Aled Jones-Griffith (Grŵp Llandrillo Menai), David Roberts (Cadeirydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol), Edgar Wyn Owen (Parc Cenedlaethol Eryri) a Dave Penrith (Ymgynghorydd Anweithredol).

**Prif Weithredwyr Cynghorau Cyfansoddol:** Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd), Sarah Ecob (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Helen White (Cyngor Sir Ddinbych), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint) ac Alwyn Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

**Swyddogion eraill yn bresennol**: Alwen Williams (Prif Weithredwr y CBC), Hedd Vaughan-Evans (Pennaeth Gweithrediadau), Sian Pugh (Pennaeth Cynorthwyol Cyllid), Sara Jane Jones (Uwch Gyfrifydd), Mark Watkins (Swyddog Monitro), Sian Lloyd Roberts (Rheolwr Sgiliau Rhanbarthol), Colin David Mathews (Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo), Elliw Alaw Hughes (Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf), Meghan Davies (Rheolwr Ynni a Sero Net), Iain Taylor (IMT Consulting), Nia Medi Williams (Rheolwr Adnoddau a Gweithrediadau), Rees Brown (Rheolwr Prosiect Portal Sgiliau), a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Sylwedyddion**: Dewi Williams a Bryn Richards (Llywodraeth Cymru) a Gareth Ashman (Llywodraeth y DU)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:-

- Y Cynghorydd Dave Hughes (Cyngor Sir y Fflint) gyda'r Cynghorydd Richard Jones yn dirprwyo.
- Y Cynghorydd Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)
- Yr Athro Edmund Burke (Prifysgol Bangor) gyda'r Athro Paul Spencer yn dirprwyo.
- Yana Williams (Coleg Cambria) gyda Steve Jackson yn dirprwyo
- Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) gyda Sarah Ecob yn dirprwyo.
- Wendy Boddington (Sylwedydd Llywodraeth Cymru), gyda Dewi Williams yn dirprwyo.
- Dewi Morgan (Cyngor Gwynedd) gyda Sian Pugh yn dirprwyo

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyniwyd datganiadau o fuddiant personol gan Steve Jackson (Coleg Cambria) a'r Athro Joe Yates (Prifysgol Wrecsam) ar gyfer Eitem 5 gan fod y sefydliadau yn gysylltiedig â'r prosiect. Ni fu iddynt adael y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth.

Derbyniwyd datganiadau o fuddiant personol y Cynghorydd Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a gan Joe Yates (Prifysgol Wrecsam) ar gyfer Eitem 7. Ni fu iddynt adael y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth ar y mater hwn.

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol ar gyfer Eitem 8, gan gydnabod nad oedd angen i'r Cynghorydd Nia Jeffreys, y Cynghorydd Edgar Wyn Owen na Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd) ddatgan buddiant ar yr eitem hon.

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan yr Athro Paul Spencer (Prifysgol Bangor) ar gyfer Eitem 9, gan fod y sefydliad ynghlwm â'r prosiect. Nododd ei fod yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a bu iddo adael y cyfarfod ar gyfer yr eitem.

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorydd Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn) ar gyfer Eitem 9. Nodwyd nad oedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth.

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorydd Nia Jeffreys a Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd) ar gyfer Eitem 10, gan fod y Cyngor yn un o noddwyr y prosiect. Nodwyd nad oedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu ac nid oedd angen gadael y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth.

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan y Cynghorydd Edgar Wyn Owen (Parc Cenedlaethol Eryri) ar gyfer Eitem 10. Nodwyd nad oedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth.

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan Aled Jones-Griffith (Grŵp Llandrillo Menai) ar gyfer Eitem 11, gan fod y sefydliad ynghlwm â'r prosiect. Nodwyd ei fod yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a bu iddo adael y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth.

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan Aled Jones-Griffith (Grŵp Llandrillo Menai) ar gyfer Eitem 12, fod y sefydliad ynghlwm â'r prosiect. Nodwyd ei fod yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a bu iddo adael y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 05 Rhagfyr 2025 fel rhai cywir.

**5. RHAGLEN SGILIAU PARTH BUDDSODDI SIR Y FFLINT A WRECSAM**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Sgiliau Rhanbarthol a Cadeirydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

**PENDERFYNIAD**

- **Nodi'r cynnydd ar roi'r Rhaglen Parth Buddsoddi ar waith mewn partneriaeth agos gyda'r Awdurdodau Addysg Lleol, Coleg Cambria, Prifysgol Wrecsam a'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.**

- **Nodi'r broses ar gyfer datblygu'r prosiectau a gyflwynwyd yn nogfennaeth yr eitem hon, a'u bod wedi cael eu cytuno fel prosiectau sgiliau priodol ar gyfer y Parth**

**Buddsoddi i gefnogi'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a'u bod yn cyd-fynd ag amcanion y Cynllun Sgiliau Parth Buddsoddi.**

- **Cymeradwyo'r cynigion prosiect a gyflwynwyd gan Goleg Cambria gwerth hyd at £8,183,000 a dirprwyo i Brif Weithredwr Uchelgais Gogledd Cymru, y Swyddog Monitro, a'r Swyddog Adran 151 mewn ymgynghorid â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i gytuno ac ymrwymo i Gytundeb Cyllid Grant rhwng Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd a Choleg Cambria.**

- **Cymeradwyo'r cynigion prosiect a gyflwynwyd gan Brifysgol Wrecsam gwerth hyd at £4,247,014 a dirprwyo i Brif Weithredwr Uchelgais Gogledd Cymru, y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151 mewn ymgynghoriad a'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i gytuno ac ymrwymo i Gytundeb Cyllid Grant rhwng Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd a Phrifysgol Wrecsam.**

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

I geisio cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor Lles Economaidd ar gyfer Rhaglen sgiliau Parth Sir y Fflint a Wrecsam. Bydd hyn yn galluogi dechrau'r rhaglen sgiliau Parth Buddsoddi ar yr adeg caiff y Parth Buddsoddi ei gytuno arno rhwng Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

## TRAFODAETH

Eglurwyd bod yr adroddiad yn cyflwyno Rhaglen Sgiliau Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam a gofyn am gymeradwyaeth yr Is-bwyllgor ar gyfer y rownd gychwynnol o brosiectau er mwyn cefnogi'r Parth Buddsoddi.

Cadarnhawyd bod y Rhaglen wedi cael ei ddatblygu ar y cyd gyda Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Coleg Cambria, Prifysgol Wrecsam, Gyrfa Cymru a'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol.

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen i ddarparu sgiliau ar gyfer gweithwyr newydd, gan fod y gweithlu yn gyffredinol yn heneiddio, a bod angen paratoi i ymdopi gyda thechnolegau newydd. Tynnwyd sylw mai nod y Rhaglen yw ymateb i'r anghenion hynny drwy sicrhau bod addysg a sgiliau sydd yn cael ei ddarparu yn cyfarch yr hyn sydd yn ddisgwyliedig o anghenion cyflogwyr. Nodwyd y bwriedir sicrhau bod trigolion lleol yn elwa drwy gyflogaeth oherwydd y sgiliau maent yn eu datblygu o fewn y Parth Buddsoddi.

Tywyswyd yr aelodau drwy'r prosiectau cychwynnol gan egluro eu bod yn canolbwyntio ar 'Ymyrraethau Cyn 16', 'Ymyrraethau 16-18', 'Llwybrau ar gyfer 18+' ac 'Ail-sgilio ac Uwch-sgilio'. Manylwyd bod nifer o brosiectau pellach ar waith er mwyn cyfarch y prif agweddau hyn, ac eu bod wedi cael eu datblygu gan Coleg Cambria a Phrifysgol Wrecsam.

Nodwyd bod Coleg Cambria yn datblygu hyfforddiant ar Weithgynhyrchu Uwch, sgiliau digidol a Thechnolegau Diwydiant 4.4. Ymhelaethwyd bod y Coleg yn dymuno ehangu prentisiaethau a chryfhau'r gwaith ymgysylltu gyda chyflogwyr, yn enwedig y cwmnïau bychan a chanolig (SME). Pwysleisiwyd ei fod yn becyn cyflawn ar gyfer ymyraethau 16-18 ac 18+

Nodwyd bod Prifysgol Wrecsam yn canolbwyntio arlwybrau ar gyfer 18+ yn ogystal ag ail-sgilio ac uwch-sgilio gweithwyr. Cyfeiriwyd at rhai o'r cynlluniau hyn megis Prentisiaethau Gradd mewn Gweithgynhyrchu Uwch, 'Graduate Internships' i ddatblygu a chadw talent yn

y rhanbarth, Ymchwil Meistr a PHD sydd yn cydfynd gyda blaenoriaethau'r diwydiant a chyrsiau addysg uwch sydd wedi cael eu cyd-greu gyda cyflogwyr.

Ystyriwyd bod y prosiectau hyn oll yn cryfhau llwybr sgiliau ar draws y ddau Awdurdod Lleol, y rhanbarth yn ehangach a sicrhau busnesau sydd yn cymryd rhan yn y Parth Buddsoddi bod gweithwyr cymwys ar gael i helpu tyfu eu busnes ac arloesi i'r dyfodol.

Pwysleisiwyd bod Proses Sicrwydd cadarn, clir a strwythuredig wedi cael ei gwblhau. Cadarnhawyd bod yr holl brosiectau wedi cael eu datblygu drwy Is-grŵp Sgiliau y Parth Buddsoddi gan ddefnyddio tystiolaeth ar anghenion sgiliau a drwy ddefnyddio Strategaeth Sgiliau y Parth Buddsoddi fel ffynhonnell graidd o ddata ac ymchwil.

Cadarnhawyd bod y prosiectau hyn wedi cael eu mireinio mewn dau gam, a'u cyflwyno mewn ffurflenni cais cyn cael eu hystyried. Ymhelaethwyd bod y camau mireinio hyn yn cynnwys Adolygiad Sicrwydd gan Medr, sef y rheoleiddiwr cyllid addysg ôl-16 yng Nghymru. Nodwyd bod cyflawni'r camau mireinio hyn gyda cefnogaeth Medr yn sicrhau bod y prosiectau yn ychwanegu gwerth i'r ardal a'r rhanbarth. Manylwyd bod y prosiectau o fewn yr adroddiad hwn wedi cael eu cyflwyno i'r Bartneriaeth Sgiliau yn ddiweddar.

Eglurwyd bydd gwaith yn cael ei wneud er mwyn monitro'r cynlluniau a'r prosiectau hyn, gan ofyn bod cynlluniau cyflawni blynyddol a fframweithiau gwerthuso yn cael eu cwblhau.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Credwyd ei fod yn bwysig i sicrhau bod cwmnïau sydd yn recriwtio yn y rhanbarth yn cadarnhau pa sgiliau allweddol sydd ei angen ar bobl ifanc er mwyn derbyn swyddi, gan amlygu'r angen bod ysgolion yn cydweithio gyda'r Parth Buddsoddi er mwyn sicrhau bod y sgiliau cywir yn cael eu datblygu ar gyfer pobl ifanc o bob oed. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhaodd Rheolwr Sgiliau Rhanbarthol bod addysgu sgiliau ar gyfer unigolion iau na 16 oed yn hanfodol gan ei fod yn annog unigolion i gymryd mantais o'r prosiectau sydd ar gael i bobl 16-18 ac i 18+. Pwysleisiwyd bod awdurdodau addysg Wrecsam a Fflint yn arwain ar y prosiectau hyn ynghyd â'u partneriaid gan gadarnhau eu bod yn manylu ar y cwricwlwm er mwyn sicrhau bod y sgiliau hanfodol yn cael eu haddysgu.

Llongyfarchwyd y swyddogion a'u partneriaid ar eu gwaith. Dymunwyd sicrhau bod gwersi yn cael eu Dysgu wrth ddatblygu prosiectau'r Is-bwyllgor Lles Economaidd er mwyn sicrhau bod y sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer y datblygiadau hynny, yn cael eu hymgorffori o fewn y Rhaglen Sgiliau i'r dyfodol. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhaodd Prif Weithredwr CBC y Gogledd bod angen uchafu sgiliau hanfodol i'r lleoliadau hynny ble mae buddsoddiad prosiectau hynny ar ei fwyaf, gan ganiatáu i bobl ifanc aros yng ngogledd Cymru ar gyfer gyrfaoedd hirdymor ar draws y rhanbarth.

Diolchwyd am yr adroddiad.

## 6. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Pleidleisiwyd ar y cynnig i gau allan y wasg a'r cyhoedd a bu i'r Cynghorydd Nia Jeffreys atal ei phleidlais ar yr eitem hon.

**Cynigodd y Cadeirydd y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972: Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).**

Er bod diddordeb y cyhoedd mewn tryloywder ac atebolrwydd, mae hyn yn cael ei orbwyso ar hyn o bryd gan yr angen i ddiogelu gwybodaeth fasnachol sensitif o ystyried y byddai datgelu yn debygol o ragfarnu trafodaethau parhaus a gallu'r awdurdod i sicrhau'r gwerth gorau a diogelu'r defnydd priodol o arian cyhoeddus.

## 7. ACHOS BUSNES AMLINELLOL PORTH WRECSAM

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr y Rhaglen Tir ac Eiddo.

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Prosiect Porth Wrecsam yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i'r broses sicrwydd a gynhaliwyd, a bod y Cyngor yn mynd i'r afael â'r materion a nodir a disgrifiwyd yn Adran 7 yr adroddiad hwn, a gofyn i Achos Busnes Lawn gael ei baratoi i'r Is-bwyllgor ei ystyried.

Awdurdodi i'r Cyfarwyddwr Portffolio mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i gytuno ar delerau drafft yn unol â'r adroddiad hwn fel sail i'r trefniadau ariannu terfynol ar gyfer y prosiect gael eu hymrwymo yn amodol ar gymeradwyo'r Achos Busnes Llawn.

Nodi bod cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor yn ddilys am gyfnod o ddeuddeg mis ac os na fydd y prosiect yn mynd ymlaen i Achos Busnes Llawn cymeradwy yn ystod y cyfnod hwn, bydd yn ofynnol iddo ddychwelyd a chyflwyno'r achos busnes i'r Is-bwyllgor ei gymeradwyo.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ceisio cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor i'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer prosiect Porth Wrecsam gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr Adroddiad.

## 8. CAIS AM NEWID: PARC BRYN CEGIN, BANGOR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Gweithrediadau a Rheolwr y Rhaglen Tir ac Eiddo.

**PENDERFYNWYD**

Cytuno i'r cais am newid ar gyfer prosiect Parc Bryn Cegin i ddyrannu £1.43m ychwanegol o gyllid y Cynllun Twf i gyflawni Cam 2 y Prosiect i ddarparu 1,856 metr sgwâr (20,000 troedfedd sgwâr) ychwanegol o unedau cyflogaeth modern o safon uchel sy'n gweithredu ar sail carbon isel.

Dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151 i gytuno a chymeradwyo'r newidiadau perthnasol i'r Cytundeb Cyd-fenter â Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni'r prosiect.

Nodi y byddai'r Achos Busnes Llawn ar gyfer Parc Bryn Cegin yn cael ei ddiweddaru ar ôl llofnodi'r contract ar gyfer cam 2 i adlewyrchu'r costau terfynol ac i ddirprwyo cymeradwyaeth yr Achos Busnes Llawn i'r Cyfarwyddwr Portffolio.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ceisio cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor i'r cais am newid ar gyfer prosiect Parc Bryn Cegin, Bangor.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr Adroddiad.

## 9. ACHOS BUSNES LLAWN EGNI

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Ynni a Sero Net.

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwyo’r Achos Busnes Llawn ar gyfer Prosiect Egni.

Awdurdodi’r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â’r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog Adran 151 a’r Swyddog Monitro, i gytuno ac ymrwymo i gytundeb ariannu gyda Prifysgol Bangor er mwyn cyflawni’r prosiect, yn ddarostyngedig i Brifysgol Bangor yn rhoi sylw boddhaol i’r materion sy’n weddill fel y nodir yn Adran 7 o’r adroddiad hwn.

Nodwyd bod cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor yn ddilys am gyfnod o chwe mis ac os na fydd y prosiect yn mynd ymlaen i gytundeb cyllido wedi’i lofnodi yn ystod y cyfnod hwn, bydd yn ofynnol iddo ddychwelyd ac ailgyflwyno’r achos busnes i’r Is-bwyllgor i’w gymeradwyo.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ceisio cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor i'r Achos Busnes Llawn ar gyfer Prosiect Egni.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr Adroddiad.

## 10. ACHOS BUSNES AMLINELLOL CANOLFAN ARLOESI, BUSNES A SGILIAU TRAWSFYNYDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Gweithrediadau a’r Rheolwr Ynni a Sero Net.

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwyo’r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Prosiect Canolfan Arloesi, Busnes a Sgiliau Trawsfynydd yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i’r broses sicrwydd a gynhaliwyd, a bod Cyngor Gwynedd yn mynd i’r afael â’r materion a nodir a disgrifiwyd yn Adran 7 yr adroddiad hwn, a gofyn i’r Achos Busnes Llawn gael ei baratoi i’r Is-bwyllgor ei ystyried.

Awdurdodi i’r Cyfarwyddwr Portffolio mewn ymgynghoriad â’r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog Adran 151 a’r Swyddog Monitro i gytuno ar delerau drafft yn unol â’r adroddiad hwn fel sail i’r trefniadau ariannu terfynol ar gyfer y prosiect gael eu hymrwymo yn amodol ar gymeradwyo’r Achos Busnes Llawn.

Nodwyd bod cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor yn ddilys am gyfnod o ddeuddeg mis ac os na fydd y prosiect yn mynd ymlaen i Achos Busnes Llawn cymeradwy yn ystod y cyfnod hwn, bydd yn ofynnol iddo ddychwelyd a chyflwyno’r achos busnes i’r Is-bwyllgor i’w gymeradwyo.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ceisio cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor i'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Canolfan Arloesi, Busnes a Sgiliau Trawsfynydd.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr Adroddiad.

## 11. HWB ECONOMI WLEDIG GLYNLLIFON ACHOS CYFIAWNHAD BUSNES AR GYFER DATBLYGIAD LLAETH CYNALIADWY

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf.

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwyo’r Achos Cyfiawnhad Busnes drafft ar gyfer yr Elfen Datblygiad Llaeth Cynaliadwy o brosiect Hwb Economi Wledig Glynllifon yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o’r broses sicrwydd a gynhaliwyd, a bod Grŵp Llandrillo Menai yn ymdrin â’r materion a nodir a disgrifiwyd yn Adran 7 yr adroddiad hwn, ac yn sicrhau’r holl gymeradwyaethau mewnol angenrheidiol ar gyfer y prosiect.

Dirprwyo i’r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â’r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog Monitro a’r Swyddog Adran 151 i gytuno a chadarnhau’r materion sy’n weddill yn yr adroddiad cyn i’r cyllid gael ei ryddhau a nodi os na fydd hyn wedi ei gwblhau ymlaen llaw i’r Is-bwyllgor ym mis Mai yna byddai angen i’r Achos Cyfiawnhad Busnes gael ei ail gyflwyno i’w ystyried.

Nodi bod cytundeb ariannu eisoes wedi’i wneud gyda Grŵp Llandrillo Menai ar gyfer prosiect Hwb Economi Wledig Glynllifon yn dilyn cymeradwyaeth Achos Cyfiawnhad Busnes Laeth Defaid Cymru, ac y bydd y cytundeb hwn yn cynnwys y broses o gyflawni’r elfen hon o’r prosiect ehangach os bydd yr Is-bwyllgor yn cymeradwyo’r Achos Cyfiawnhad Busnes hwn.

Nodi y bydd un cymeradwyaeth Achos Busnes arall i gyflawni’r elfennau sy’n weddill o brosiect Hwb Economi Wledig Glynllifon ac y bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i’r Is-bwyllgor i’w hystyried yn y dyfodol.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ceisio cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor i'r Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer Elfen Datblygiad Llaeth Cynaliadwy Prosiect Hwb Economi Wledig Glynllifon.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr Adroddiad.

## 12. CAIS AM NEWID PROSIECT ACADEMI CROESO (A ELWID GYNT YN BROSIECT RHWYDWAITH TALENT TWRISTIAETH)

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf.

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwyo’r cais am newid ar gyfer prosiect Academi Croeso, gan roi estyniad terfynol o hyd at chwe mis i gyflwyno lloeren newydd ar ffurf Achos Cyfiawnhad Busnes i ail-ddyrannu’r £1m sy’n weddill o gyllid y Cynllun Twf sydd eisoes wedi’i ymrwymo i’r prosiect.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae ceisiadau am newidiadau i brosiectau gan Arianwyr Prosiectau yn faterion i'r Is-bwyllgor eu penderfynu.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr Adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 09:30 a daeth i ben am 11:20.

_______________________________________

Cadeirydd

IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD

15fed o Fai, 2026

| | |
|---|---|
| TEITL: | Cynllun Twf Gogledd Cymru – Adroddiad Perfformiad a Risg Chwarter 4 |
| AWDUR: | Hedd Vaughan-Evans, Cyfarwyddwr Portffolio |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno adroddiad Chwarter 4 (Ionawr i Fawrth) y Cynllun Twf a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddaru.

1.2. Mae adrodd chwarterol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Yn dilyn ystyriaeth gan yr Is-Bwyllgor Llesiant Economaidd, caiff yr adroddiadau eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Bod yr Is-Bwyllgor yn ystyried ac yn nodi Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddaru.

2.2. Bod yr Is-Bwyllgor yn cymeradwyo cyflwyno Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ynghyd â phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

## 3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaeth Uchelgais Gogledd Cymru a Llywodraethau Cymru a'r DU gytuno ar y Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

4.2. Mae adrodd rheolaidd ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

4.3. Mae dau atodiad i'r adroddiad hwn:
- Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 4
- Cofrestr Risg y Portffolio – Mawrth 2026

4.4. <u>Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 4</u>

4.4.1. Mae adroddiad perfformiad Chwarter 4 yn darparu trosolwg o gynnydd ar raglenni a phrosiectau'r Cynllun Twf.

4.4.2. Yn ystod y chwarter cymeradwyodd yr Is-bwyllgor Lles Economaidd achosion busnes ar gyfer pump o brosiectau. Roedd yn cynnwys tair Achos Fusnes Amlinellol ar gyfer Porth Busnes Wrecsam, Canolfan Arloesi, Busnes a Sgiliau Trawsfynydd, ac Porth Wrecsam; yr Achos Fusnes Lawn ar gyfer y prosiect Egni; ac yr Achos Gyfiawnhad Fusnes ar gyfer yr Datblygiad Llaeth Cynaliadwy sy'n ran o Hwb Economi Wledig Glynllifon.

4.4.3. Cymeradwywyd tri cais am newid. Gyda £12.1m (Cynllun Twf ac Parth Buddsoddi) ychwanegol a gyfer prosiect Padeswood; cymeradwyaeth ar gyfer £1.43m ychwanegol ar gyfer prosiect Parc Bryn Cegin fydd yn galluogi gwedd 2 o'r prosiect; ynghyd a chymeradwyo estyniad terfynol o 6 mis ar gyfer y prosiect Academi Croeso i ddod ac Achos Gyfiawnhad Busnes ymlaen er mwyn dyrannu yr £1m o arian sydd wedi ei glustnodi i'r prosiect eisoes.

4.4.4. Nododd yr elfen Defaid Llaeth Cymru o'r prosiect Hwb Economi Wledig Glynllifon y prosiect yn symud i gyflawni gyda digwyddiad ar y safle.

4.4.5. Mae diddordeb cynyddol wedi ei ddangos yn yr Gronfa Ynni Glan gyda datganiadau o ddiddordeb a cheisiadau yn cael ei cyflwyno, ynghyd a cyfarfod cyntaf y Panel Buddsoddi ar gyfer cymeradwyo prosiectau cyntaf y gronfa.

4.4.6. Mae cynnydd wedi wneud ar brosiect Cydnerth gyda'r ceblau wedi ei tynnu drwyddo er mwyn ymestyn isadeiledd Morlais a'i gysylltu i'r grid cenedlaethol.

4.4.7. Mae diweddariad Chwarter 4 yn dangos prosiectau yn adrodd yn erbyn proffil cyflawni y portffolio. Mae un prosiect yn parhau adrodd yn goch ar ddiwedd y chwarter, ac yn cael ei adolygu.

- Hwb Hydrogen Caergybi – prosiect yn cael ei adolygu, gyda materion allweddol a risgiau yn parhau i gael ei datrys.

4.5. Cofrestr Risg y Portffolio – Mawrth 2026

4.5.1. Mae Cofrestr Risg y Portffolio yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd gan y Swyddfa Rheoli Portffolio a'i hadolygu gan y Bwrdd Portffolio a'r Is-Bwyllgor Lles Economaidd (yn flaenorol y Bwrdd Uchelgais) yn chwarterol.

4.5.2. Mae'r gofrestr risg wedi'i diweddaru'n llawn gan y Swyddfa Rheoli Portffolio, gyda newidiadau wedi ei cofnodi yn y ddogfen gan gynnwys camau lliniaru diwygiedig ac mae'r sylwadau wedi'u diweddaru.

4.5.3. Roedd newid i ddau risg gyda'r risg gweddillol yn cynyddu ar y risgiau Fforddiadwyedd ac Newid Gwleidyddol.

4.5.4. Er bod y proffil risg wedi parhau'n sefydlog yn gyffredinol yn ystod y chwarter diwethaf, mae'r proffil risg yn parhau yn uchel gyda tri o risgiau gweddilliol coch gan gynnwys fforddiadwyedd, cynllunio a chaniatâd statudol, ac amcanion gwariant.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol yn uniongyrchol o gymeradwyo'r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn.

5.2. Mae'r proffil cyflawni a gwariant diwygiedig a gymeradwywyd gan y Bwrdd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad chwarterol.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cyfreithiol uniongyrchol o’r adroddiad hwn.

6.2. Mae adrodd rheolaidd ar berfformiad y Cynllun Twf yn rhan o'r fframwaith llywodraethu y cytunwyd arno ac yn un o ofynion allweddol Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

---

## ATODIADAU:

| | |
|---|---|
| Atodiad 1: | Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 |
| Atodiad 2: | Cofrestr Risg y Portffolio – Mawrth 2026 |

---

## YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

### i. Swyddog Monitro:

"Mae adrodd rheolaidd ar berfformiad y Cynllun Twf yn rhan o'r fframwaith llywodraethu y cytunwyd arno ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru. Mae'r argymhellion yn gyson â'r fframwaith hwnnw ac yn dod o fewn rôl yr Is-bwyllgor wrth ystyried gwybodaeth am berfformiad a risg a chymeradwyo adrodd ymlaen i'r Llywodraeth a chyrff craffu.

Er nad oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol uniongyrchol sy'n deillio o'r Adroddiad, dylai'r Is-bwyllgor, fodd bynnag, barhau i roi sylw i oblygiadau cyfreithiol a llywodraethu'r risgiau a nodwyd yn y Gofrestr Risg Portffolio. Dylai cymeradwyaethau prosiectau unigol, rheolaethau newid, trefniadau ariannu, materion caffael a materion rheoli cymhorthdal barhau i gael eu trin trwy'r prosesau sicrwydd a gwneud penderfyniadau perthnasol."

### ii. Swyddog Cyllid Statudol:

“Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol Uchelgais Gogledd Cymru yn ystod chwarter 4. Ni fydd gweithredu’r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad ariannol newydd. Byddaf yn parhau i gefnogi’r Swyddfa Rheoli Portffolio wrth reoli'r risgiau perthnasol.”

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

# Cynllun Twf Gogledd Cymru
# Adroddiad Perfformiad Chwarterol

## 2025-26 Chwarter 4
## (Ionawr - Mawrth Rhagfyr 2026)



# CYNNWYS


| | | |
|---|---|---|
| 01 | Crynodeb y Cyfarwyddwr Portffolio | 3 |
| 02 | Dashfwrdd Cyflawni Prosiect | 4 |
| 03 | Dashfwrdd Buddion | 5 |
| 04 | Perfformiad y Rhaglen Cysylltedd Ddigidol | 6 |
| 05 | Perfformiad y Rhaglen Ynni Carbon Isel | 8 |
| 06 | Perfformiad y Rhaglen Tir ac Eiddo | 10 |
| 07 | Perfformiad y Rhaglen Bwyd-amaeth a Thwristiaeth | 13 |
| 08 | Perfformiad y Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | 15 |
| 09 | Olrhain Cynnydd y Prosiectau | 17 |
| 10 | Prosiectau'r Cynllun Twf: Proffil Dyraniad Cyllid Cyfalaf | 19 |
| | ATODIAD A - Crynodeb o Brosiectau y Cynllun Twf | 20 |

# 01 CRYNODEB Y CYFARWYDDWR PORTFFOLIO

Yn ystod y chwarter hwn, cyfarfu'r Is-bwyllgor Lles Economaidd ddwywaith, gan gymeradwyo nifer o benderfyniadau prosiect. Rhoddwyd cymeradwyaeth i Achos Busnes Amlinellol ar gyfer tri phrosiect: Porth Busnes Wrecsam, Canolfan Arloesi, Busnes a Sgiliau Trawsfynydd, a Phorth Wrecsam. Cymeradwywyd Achos Busnes Llawn Egni, fydd yn creu adeilad newydd ar safle M-Sparc yn y Gaerwen. Cymeradwywyd yr ail Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer Hwb Economi Wledig Glynllifon i'w Datblygiad Llaeth Cynaliadwy. Cymeradwywyd tri chais ar gyfer newid, cymeradwywyd £12.1m yn ychwanegol ar gyfer prosiect Padeswood (£6.1m o'r Cynllun Twf ac £6m o'r Parth Buddsoddi); cymeradwywyd £1.43m yn ychwanegol ar gyfer prosiect Parc Bryn Cegin fydd yn galluogi Cam 2 y prosiect; rhoddwyd cymeradwyaeth ar gyfer estyniad terfynol chwe mis i brosiect Academi Croeso i gyflwyno Cyfiawnhad Busnes i ailddyrannu'r £1m sy'n weddill o'r arian a ymrwymwyd i'r prosiect.

Dathlodd Defaid Llaeth Cymru, rhan o brosiect Hwb Economi Wledig Glynllifon, fod y prosiect yn symud i'r cyfnod cyflawni gyda digwyddiad torri'r dywarchen ar y safle yn ystod mis Chwefror. Rydym yn croesawu gweld y prosiect yn symud i'r cam cyflawni, gan osod Gogledd Cymru fel arweinydd byd-eang mewn cynhyrchu llaeth cynaliadwy yn ogystal â chreu swyddi o ansawdd uchel yn y gymuned wledig.

Mae mwy o ddiddordeb yn ein Cronfa Ynni Glân gyda datganiadau o ddiddordeb a cheisiadau wedi'u cyflwyno, yn ystod y chwarter hwn fe wnaethom gynnal ein cyfarfod cyntaf o'r Panel Buddsoddi, a chymeradwywyd ei brosiectau cyntaf ar gyfer y gronfa.

Cymerodd cysylltedd symudol yn y rhanbarth gam sylweddol ymlaen, gyda safleoedd celloedd bach 4G a 5G O2 cyntaf y rhanbarth bellach yn fyw yn Sir y Fflint. Galluogodd y gwaith hwn drwy'r prosiect 4G+ i helpu awdurdodau lleol i gyflwyno 'Cytundebau Mynediad Agored' - gan sicrhau bod eu seilwaith ar gael i gwmnïau telathrebu. Drwy ddarparu arweiniad, datblygu dulliau arfer gorau, ac ymgysylltu â diwydiant, mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi cefnogi cynghorau i gyflymu gwelliannau mewn cysylltedd — model a ddefnyddir fwyfwy gan awdurdodau lleol ledled y DU.

Mae cynnydd cyffrous wedi bod ar brosiect Cydnerth ym Mharc Cybi, Caergybi. Mae ceblau bellach wedi'u tynnu trwy ddwythellau i ymestyn seilwaith Morlais a'i gysylltu i'r Grid Cenedlaethol.

Yn ystod mis Mawrth fe wnaethom gwblhau gweithgareddau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, gan gynnal cyfres o ddigwyddiadau. Ar y cyd â Greener Edge, y partner cyflawni, cynhaliwyd dau ddigwyddiad Trosglwyddo Gwybodaeth Astudiaethau Dichonoldeb Ynni Glân, roedd niferoedd da yn y ddau ac roeddynt yn gadarnhaol i hyrwyddo llwyddiannau'r prosiect a rhannu gwybodaeth am sut y gall y prosiectau hyn symud ymlaen gyda'n Cronfa Ynni Glân. Fel rhan o brosiect treialu LoRaWAN mewn Ffermydd, croesawodd fferm Derwydd ger Corwen ffermwyr a gweithwyr proffesiynol gwledig o bob rhan o'r rhanbarth ar gyfer digwyddiad yn arddangos sut y gall technoleg ddigidol gefnogi gweithrediadau o ddydd i ddydd.

Yn olaf, rwy'n falch o rannu fy mod wedi cael fy mhenodi'n Gyfarwyddwr Portffolio ar gyfer Uchelgais Gogledd Cymru. Edrychaf ymlaen at weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid ledled y rhanbarth i gynnal momentwm ar gyflawni, ac arwain y Cynllun Twf wrth i ni yrru buddsoddiad, gwireddu manteision a chyflawni effaith barhaol i Ogledd Cymru dros y blynyddoedd i ddod.



**Hedd Vaughan-Evans**

**Cyfarwyddwr Portffolio**
**Uchelgais Gogledd Cymru**

# 02 DASHFWRDD CYFLAWNI PROSIECTAU

| | Prosiectau Gweithredol (cyllid wedi neilltuo)<br>Projects in Delivery (funding committed) | Wedi cymeradwyo ddim eto yn weithredol (cyllid wedi neilltuo)<br>Approved not yet in delivery (funding committed) | Datblygu Achosion Busnes (cyllid wedi neilltuo)<br>Developing business cases (funding ringfenced) | O dan adolygiad (cyllid wedi glustnodi)<br>Under Review (funding ringfenced) | Rhestr wrth gefn (dim cyllid wedi glustnodi)<br>Reserve List (unallocated funding) |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer prosiectau<br>Number of Projects | 7 | 10 | 8 | 1 | 11 |
| Dyraniad Cyllid Cynllun Twf<br>Growth Deal Funding Allocation (£234.85*) | £57.34m | £71.52m | £70.23m | £3.80m | £31.96 |
| Cyfanswm Buddsoddiad<br>Total Investment | £130.46m | £193.49m | £359.82m | £28.77m | £287.46** |
| Swyddi<br>Jobs | 742 | 991 | 1,464 | 20 | 783** |

** Nid yw'r cyllid Cynllun Twf sy'n cael ei ddangos yma yn cynnwys £5.15m sydd wedi'i ddyrannu tuag at gostau'r Swyddfa Rheoli Portffolio*

*** Mae'r ffigyrau yn cynrychioli cydbwysedd y targed sydd i'w gyflawni gan y prosiectau ar y Rhestr Wrth Gefn*

# 03 DASHFWRDD BUDDION

**Swyddi Grewyd (Targed 4,000 o swyddi newydd)**
**Job Creation (Target 4,000 new jobs)**

| Swyddi Newydd / New Jobs | Swyddi Adeiladwaith / Construction Jobs | Swyddi Ddiogelwyd / Safeguarded Jobs |
|---|---|---|
| 63 | 58 | 0 |

**Buddsoddiad (Targed: £1bn Cyfanswm Buddsoddiad)**
**Investment (Target: £1bn Total Investment)**

| Budsoddiad Cynllun Twf / Growth Deal Investment | Cyfanswm Buddsoddiad / Total Investment | Refeniw Ddiogelwyd / Revenue Secured |
|---|---|---|
| £30,652,413.01 | £34,208,618.52 | £7,054,089 |

**Buddion ehangach**
**Wider Benefits**

| Incwm Cyfalaf wedi'i Drosoleddu / Capital Income Levereged | Gofod Llawr wedi'i Ddatblygu / Floorspace Developed | Unigolion wedi ymgysylltu / Individuals engaged |
|---|---|---|
| £81,016 | 2,349m² | 5,212 |
| **Camau gweithredu i gryfhau cadwyni cyflenwi / Actions to strengthen local supply chains** | **Myfyrwyr yn cwblhau cymhwysterau / Students completing qualifications** | **Unigolion sy'n cwblhau cyrsiau hyfforddi CPD / Individuals completing CPD training courses** |
| 66 | 907* | 286 |

*this is a gross figure subject to net baseline deductions
*mae hwn yn ffigwr gros sy'n destun dileadau llinell sylfaen net

# 03 PERFFORMIAD Y RHAGLEN DDIGIDOL

## Nod y Rhaglen

Cyflawni newid amlwg yn y cysylltedd digidol sydd ei angen i sicrhau y gall Gogledd Cymru gyflawni galw'r defnyddwyr, cynnal cyflymdra gyda gweddill y DU, datgloi potensial sectorau a safleoedd â blaenoriaeth am dwf a thanategu ecosystem arloesi ffyniannus.

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • Mae lansio'r cynlluniau Grant Di-wifr 4G + ac Uwch wedi'i ohirio tan ar ôl etholiad 2026 ym mis Mai.<br>• Mae'r eitemau olaf o offer ar gyfer prosiect Canolfan DSP wedi'u gohirio oherwydd problemau yn y gadwyn gyflenwi ond disgwylir iddynt gyrraedd o'r chwarter nesaf.<br>• Mae ail wedd o gelloedd bach sy'n defnyddio seilwaith sy'n eiddo i'r awdurdod lleol trwy'r cytundebau mynediad agored wedi cael ei datblygu y chwarter hwn ac mae disgwyl iddi gael ei chwblhau y chwarter nesaf. Mae pum cytundeb bellach wedi'u llofnodi hyd yma ar draws y rhanbarth gyda mwy i ddod yn Ch1 26/27. Rydym bellach wedi ymgysylltu â grŵp ehangach o sefydliadau sector cyhoeddus ac mae cytundeb enghreifftiol y gellir ei rannu ar draws y rhanbarth wedi'i ddatblygu.<br>• Cynhaliwyd ail gyfarfod y Fforwm Telathrebu Rhanbarthol y chwarter hwn gyda chynrychiolaeth gan awdurdodau lleol a diwydiant, gan ganolbwyntio ar yr economi ymwelwyr a chysylltedd yn y Parc Cenedlaethol. |

I'w gadarnhau
Aelod Arweiniol



**Ian Jones**
Uwch Berchennog Cyfrifol



**Stuart Whitfield**
Rheolwr Rhaglen

- Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim ond mân materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)
- Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)
- Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

# 03 PERFFORMIAD Y RHAGLEN DDIGIDOL


| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Prosesu Signal Digidol**<br>Prifysgol Bangor | | Prosiect yn cael ei gyflwyno | • Rhwydwaith Preifat Symudol 5G wedi'i osod yn y Ganolfan i arddangos apiau iechyd a gofal cymdeithasol, amaeth-dechnoleg, a gweithgynhyrchu uwch. | • Derbyn yr eitemau olaf o offer.<br>• Lansio ymgysylltiad busnes rhanbarthol strwythuredig. | | • Eitemau olaf o offer wedi'u heffeithio gan oedi yn y gadwyn gyflenwi.<br>• Mae'r prosiect yn methu'r targed o ran sicrhau arian grant ychwanegol.<br>• Ymgysylltu busnes rhanbarthol wedi'i ohirio oherwydd problemau capasiti. |
| **Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig**<br>Uchelgais Gogledd Cymru | **4G+** | Wedi'i gymeradwyo ond ddim yn cyflawni ar hyn o bryd | • Cynhaliwyd ail gyfarfod y fforwm telathrebu. | • Lansio cynllun grantiau.<br>• Ail wedd o gelloedd bach i gael ei chomisiynu.<br>• Trydydd cyfarfod y fforwm telathrebu i gael ei gynnal. | | • Disgwylir i'r ail wedd o osod seilwaith celloedd bach gael ei chwblhau erbyn mis Mai.<br>• Gohiriwyd lansiad y cynllun grant tan ar ôl yr etholiad. |
| **Campysau Cysylltiedig**<br>Uchelgais Gogledd Cymru | **Di-wifr Uwch** | Wedi'i gymeradwyo ond ddim yn cyflawni ar hyn o bryd | • Ymgysylltu ymhellach â darpar ymgeiswyr yn y sector preifat a chyhoeddus. | • Lansio Cynllun Grantiau. | | • Gohiriwyd lansiad y cynllun grant tan ar ôl yr etholiad. |
| | **LPWAN** | Wedi'i gymeradwyo ond ddim yn cyflawni ar hyn o bryd | • Pryniannau cychwynnol a gosod pyrth.<br>• Mwy o gynlluniau defnydd LoRaWAN i gael eu cyflwyno. | • Yr awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan i brynu mwy o byrth. | | • Mae cynlluniau LPWAN wedi dechrau gyda chynlluniau defnyddio pellach i'w cymeradwyo yn Ch1 ac yna mwy o osodiadau. |

# 04 PERFFORMIAD Y RHAGLEN YNNI CARBON ISEL

## Nod y Rhaglen

Datgloi buddion economaidd prosiectau ynni carbon isel trawsffurfiol a sefydlu Gogledd Cymru fel un o leoliadau arweiniol y DU ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, arloesedd a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi.

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • **Cydnerth** - Derbyniwyd trydydd taliad y benthyciad ym mis Mawrth gyda'r gwaith adeiladu yn parhau.<br>• **Cronfa Ynni Glân (Ynni Lleol Blaengar)** - Cyflwynwyd y papurau buddsoddi cyntaf er cymeradwyaeth y Panel Buddsoddi. Mae datganiadau o ddiddordeb a cheisiadau yn parhau ar draws pob un o'r 3 is-gronfa.<br>• **Trawsfynydd** - Yr Achos Busnes Amlinellol wedi'i gymeradwyo gan yr Is-bwyllgor Lles Economaidd.<br>• **Egni** - Yr Achos Busnes Llawn wedi'i gymeradwyo gan yr Is-bwyllgor Lles Economaidd. |



**Cyng. Gary Pritchard**
**Aelod Arweiniol**



**Dylan Williams**
**Uwch Berchennog Cyfrifol**



**Meghan Davies**
**Rheolwr Rhaglen**

- Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim ond mân materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)
- Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)
- Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

# 04 PERFFORMIAD Y RHAGLEN YNNI CARBON ISEL

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cydnerth (Morlais)**<br>Menter Môn | Prosiect yn cael ei gyflwyno | • Derbyniwyd trydydd taliad y benthyciad ym mis Mawrth.<br>• Gwaith adeiladu ar y gweill.<br>• Monitro buddion ar y gweill. | • Parhau i olrhain a monitro'r prosiect a'r buddion. | | • Mae'r prosiect wedi symud i'r cyfnod cyflawni ac mae'n mynd rhagddo'n dda. |
| **Egni**<br>Prifysgol Bangor | Wedi'i gymeradwyo ond ddim yn cyflawni ar hyn o bryd | • Cyflwyno a chymeradwyo Achos Busnes Llawn i'r is-bwyllgor Lles Economaidd. | • Dilyniant y Cytundeb Cyllid Grant.<br>• Dechrau ar y safle. | | • Mae'r prosiect yn wyrdd gan fod yr Achos Busnes Llawn wedi'i gymeradwyo.<br>• Cadarnhad o gyllid Porthladd Rhydd. |
| R003 | 21.10.2020 | Ariannol | Fforddiadwyedd | Swyddfa Rheoli Portffolio | Os bydd costau'r prosiectau yn cynyddu, ceir risg na fyddent yn bwrw ymlaen neu efallai y byddai angen lleihau sgôp y prosiectau. | 5 | 5 | 25 | ↔ | Bydd achosion busnes y prosiectau yn nodi mesurau rheoli risg, masnachol ac ariannol manwl ar lefel prosiect i reoli costau.<br><br>Caiff trefniadau adrodd perfformiad, risg ac ariannol cadarn eu sefydlu ar gyfer yr holl brosiectau<br><br>Unwaith y bydd yr Achosion Busnes Prosiect wedi'u cymeradwyo, bydd unrhyw gostau ychwanegol yn gyfrifoldeb ar Ariannwr y Prosiect ac fe ystyrir opsiynau ariannu amgen.<br><br>PMO yn ymgysylltu gyda noddwyr ar lefel prosiect i adnabod ffyrdd o liniaru'r cynnydd mewn costau.<br><br>Mae cyflwyno prosiectau newydd yn cyflwyno potensial pellach ar gyfer risg fforddiadwyedd, i gael ei reoli drwy ddatblygiad achos busnes. | N/A<br><br>Misol<br><br>N/A<br><br>Misol<br><br>N/A | PMO, Ariannwr y Prosiect<br><br>PMO<br><br>PMO<br><br>PMO<br><br>PMO | 4 | 4 | 16 | ▲ | Agored | Adolygwyd y risg. Cynyddu tebygolrwydd risg weddilliol i 4. Mae gwrthdaro parhaus yn y Dwyrain Canol yn cyflwyno mwy o risg ar gadwyni cyflenwi ac mae noddwyr y prosiect yn cael eu ymgynghori ar hyn o bryd ar eu hasesiad o'r risg hon. Mae arwyddion cynnar yn awgrymu y bydd cynnydd mewn costau ar draws llawer o gategorïau, heb ddeall llawn effaith ar gadwyni cyflenwi byd-eang eto. Bydd risg weddilliol yn cael ei hailasesu ar draws y Portffolio pan fydd manylion pellach ar gael. Mae'r risg sgôr weddilliol yn parhau yn uchel gan fod costau wedi cynnyddu yn sylweddol ers i'r Cynllun Twf gael ei gytuno nol yn Rhagfyr 2020. Er fod costau wedi sefydlogi am y tro, mae'r cyllid Cynllun Twf gan y llywodraeth wedi'i osod ar y swm y cytunwyd arno yn 2020, felly mae fforddiadwyedd yn parhau i fod yn her. Mae hyn yn cael ei reoli ar sail prosiect gyda rhai prosiectau yn gallu edrych ar newidiadau dylunio, newidiadau i fodelau dosbarthu ac eraill angen sicrhau cyllid ychwanegol o ffynhonellau eraill. | 24/03/2026 |
| R009 | 21.10.2020 | Rheoleiddio | Caniatâd Cynllunio a Statudol | Swyddfa Rheoli Portffolio | Os nad yw prosiectau'n derbyn y caniatâd statudol a'r gymeradwyaeth gynllunio angenrheidiol, ceir risg na fydd y prosiectau yn cael eu cyflawni ac na chaiff y buddion eu gwireddu. | 5 | 5 | 25 | ↔ | Bydd achosion busnes prosiectau cadarn yn nodi'r gofynion caniatâd ar gyfer pob prosiect a'r risgiau i gyflawni'r prosiect<br><br>Rôl arweiniol yn y PMO ar gyfer cynllunio<br><br>Parhau i ymgysylltu ag arianwyr y prosiectau ac awdurdodau caniatâd i ddeall y broses caniatad a'r risgiau gyda'r gefnogaeth a ddarperir lle bo hynny'n briodol<br><br>Adolygiad gwersi a ddysgwyd i'w gyflawni ar ôl oedi gyda chymeradwyo ar lefel prosiect<br><br>Y Cadeirydd ac/neu Cyfarwyddwr Portffolio i ysgrifennu i'r awdurdodau caniatau i amlygu'r effaith o oedi mewn penderfyniadau pan mae risgiau unigolo prosiect yn cael ei uchafu.<br><br>Cyfeirio nol i'r SRO Rhaglen i adolygu i adolygu'r risg/mater o ran caniatâd Ffosffad sy'n effeithio ar brosiectau lluosog er mwyn cynnig lliniaru priodol.<br><br>Ar gyfer prosiectau rhestr wrth gefn, mae meini prawf cynllunio wedi'u gosod cyn cyflwyno achos busnes, h.y. dim ymrwymiad i gyllid nes bod yr achos busnes wedi'i gymeradwyo. | N/A<br><br>N/A<br><br>N/A<br><br>Yn ei le<br><br>Fel bo'r angen<br><br>N/A<br><br>N/A | PMO/SROs y Prosiect<br><br>PMO<br><br>PMO<br><br>PMO, Arianwyr y Prosiectau<br><br>Cyfarwyddwr Portffolio<br><br>SRO Rhaglen<br><br>PMO | 5 | 5 | 25 | ↔ | Agored | Risg wedi adolygu. Mae'r broses o uwchraddio gweithfeydd trin dŵr i liniaru ffosffadau o'u gollyngiadau yn cymryd mwy o amser ac mae hyn bellach yn effeithio ar geisiadau cynllunio. Nid oes unrhyw brosiectau'r Cynllun Twf wedi'u heffeithio eto ond mae cais amlinellol wedi'i gyflwyno ar gyfer Porth Wrecsam. Mae risg sy'n dod i'r amlwg yn gysylltiedig â SUDS/SABs a allai effeithio ar ganiatâd. Mae caniatâd yn parhau i fod yn risg uchel ac mae'n cael ei reoli ar lefel rhaglen a phrosiect o fewn y Cynllun Twf. | 24/03/2026 |

| Rhif y Risg | Dyddiad Codi'r Risg | Categori'r Risg | Enw'r Risg | Perchennog y Risg | Disgrifiad o'r Risg | Graddfa Risg Gros P | I | Sgôr | Tuedd | Camau Lliniaru | Dyddiadau Cwblhau | Perchennog y Cam | Graddfa Risg P | I | Sgôr | Tuedd | Statws (agored/cae | Sylwadau | Dyddiad y diweddariad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| R010 | 21.10.2020 | Effaith Cymdeithasol ac Enw da | Amcanion Gwariant | Cyfarwyddwr Portffolio | Os yw prosiectau'n methu cyflawni yn erbyn amcanion gwario'r portffolio, yna ceir risg na fydd y Cynllun Twf yn bodloni ei dargedau mewn perthynas â chynhyrchu swyddi, GVA a buddsoddiad. | 4 | 4 | 16 | ▼ | Datblygir achosion busnes cadarn ar gyfer pob rhaglen a phrosiect yn unol â'r Model Pum Achos Busnes a bydd angen nodi y cyfraniad i dargedau amcanion gwariant y portffolio<br><br>Cytundebau Ariannu Grant i ymrwymo noddwyr yn gytundebol i gyflawni amcanion gwariant, gyda adrodd rheolaidd a monitro i sicrhau bod mewnbwn buan os oes angen.<br><br>Proses adolygu portfolio a rheoli newid yn ei lle.<br><br>Proses prosiectau newydd wedi ei gwblhau ar gychwyn 2025 gyda rhestr wrth gefn o brosiectau yn cael ei greu (cyfanswm o 21 prosiect - 17 o brosiectau newydd ac prosiectau pellach wedi symud i'r rhestr).<br><br>Mae strategaeth buddsoddiad wedi cael ei datblygu a chymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais. | N/A<br><br>Parhaus<br><br>N/A<br><br>Wedi gwblhau<br><br>Yn ei le | PMO/SROs y Prosiect<br><br>PMO<br><br>PMO<br><br>PMO<br><br>PMO | 4 | 4 | 16 | ↔ | Agored | Dim newidiad i'r risg Gros a gweddilliol. Er i greu'r Rhestr Gefn leihau effaith y prosiectau a dynodwyd a darparu hwb gyda chymeradwyaethau achos busnes diweddar, mae'r risg yn parhau'n uchel. | 24/03/2026 |
| R001 | 21.10.2020 | Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau | Capasiti | Cyfarwyddwr Portffolio | Os nad oes adnoddau digonol yn eu lle ar lefel portffolio, rhaglen a phrosiect, mae risg y gallai hyn effeithio ar gyflawni'r cynllun twf yn llwyddiannus. | 4 | 5 | 20 | ↔ | Uchelgais Gogledd Cymru wedi cymeradwyo cyllideb refeniw i ymestyn contractau tymor penodol.<br><br>Capasiti caffael, cyllid, cyfreithiol a technegol ychwanegol i'w sicrhau ar gyfer prosiectau a'r PMO fel sydd angen. Fframwaith ymgynghorwyr i gael ei sefydlu yn Ch2 2025-26.<br><br>PMO yn cefnogi partneriaid i sicrhau capasiti i gyflawni a chefnogi gweithgaredd recriwtio.<br><br>Recriwtio yn ystod Ch3/4 ar gyfer Cyfarwyddwr Portffolio, Rheolwyr Prosiect ac swyddi CJC eraill i gynnyddu adnoddau yn y PMO.<br><br>Cymeradwyaeth i'r cais i'r ddwy Lywodraeth i gynyddu'r haenen uchaf i 2.15% a galluogi'r PMO i gael at gyllid ychwanegol drwy gyllideb y Cynllun Twf a ymestyn cytundebau yn unol a'r angen.<br><br>Adnoddau PMO ar brosiectau blaenoriaeth i sicrhau cwblhau FBC. | Yn ei le<br><br>Parhaus<br><br>Adolygu'n fisol<br><br>Yn ei le<br><br>Yn ei le<br><br>Yn ei le | PMO<br><br>PMO<br><br>PMO, Arianwyr y Prosiectau<br><br>PMO<br><br>PMO<br><br>PMO | 3 | 4 | 12 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. Caffael cymorth arbenigol ychwanegol e.e. caffael, rheoli prosiect ayyb ar waith yn dilyn argymhelliad PAR, bydd y sgôr weddilliol yn lleihau unwaith bydd cefnogaeth mewn lle. | 24/03/2026 |
| R006 | 21.10.2020 | Amgylcheddol | Newid Hinsawdd a Bioamrywiaeth | Cyfarwyddwr Portffolio | Os nad yw prosiectau yn ystyried allyriadau carbon neu golli bioamrywiaeth mewn asesiadau lefel prosiect, mae yna risg y gallai'r portffolio gyfrannu at broblemau megis newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth. | 4 | 3 | 12 | ↔ | Datganiad sefyllfa ar Newid Hinsawdd a Bioamrywiaeth wedi'i fabwysiadu gan y Bwrdd Uchelgais.<br><br>Achosion Busnes y Prosiectau i arddangos cyflawni yn erbyn y sefyllfa sydd wedi'i fabwysiadu.<br><br>Methodoleg ar sut i ystyried allyriadau carbon a cholled bioamrywiaeth mewn achosion busnes prosiectau bellach wedi'i chyhoeddi a'i rhannu gyda'r holl brosiectau<br><br>Methodoloeg gryno ar gyfer prosiectau llai a risg isel yn cael ei ddatblygu gyda'r WLGA ar gyfer ei fabwysiadu | N/A<br><br>N/A<br><br>Yn ei le<br><br>Ebrill 2025 | BWRDD UCHELGAIS<br><br>PMO/SROs y Prosiect<br><br>PMO<br><br>PMO | 3 | 3 | 9 | ↔ | Agored | Risg wedi ei adolygu.<br>Dim newidiadau i sgorau risg gros neu risg weddilliol. Mae gweithredu'r ddull a'r hyfforddiant cysylltiedig yn parhau | 24/03/2026 |
| R007 | 21.10.2020 | Ariannol | Buddsoddiad Sector Preifat | Swyddfa Rheoli Portffolio | Os na chaiff buddsoddiad y sector preifat ei sicrhau, mae risg na chaiff prosiectau eu cyflawni neu y cânt eu cyflawni ar raddfa lai a fyddai'n effeithio ar y buddion i'r rhanbarth. | 4 | 5 | 20 | ↔ | Parhau i ymgysylltu ag Arianwyr y Prosiectau a phartneriaid sector preifat<br><br>Datblygu achosion busnes prosiectau a chytundebau cadarn ar gyfer cyllid y Cynllun Twf<br><br>Mae strategaeth buddsoddiad mewn lle i gefnogi'r PMO i ymgysylltu ac diogelu buddsoddiad sector breifat | N/A<br><br>N/A<br><br>Mewn lle | PMO/SROs y Prosiect<br><br>PMO/SROs y Prosiect<br><br>PMO | 4 | 4 | 16 | ↔ | Agored | Dim newid i risg weddilliol. Mae amodau economaidd byd-eang sy'n gysylltiedig â chyfandaliad yn y Dwyrain Canol yn cyflwyno risg bellach i hyder buddsoddwyr ac mae noddwyr prosiect ar hyn o bryd yn cael eu ymgynghori ar eu hasesiad o'r risg hon. Mae sicrhau buddsoddiad sector breifat ar gyfer y Cynllun Twf yn parhau i fod yn risg uchel, er hynny mae'r safbwynt wedi gwella gyda creu y rhestr wrth gefn. Mae'r risg hefyd yn gysylltiedig gyda R020 Rheoli Cymhorthdal | 24/03/2026 |
| R008 | 21.10.2020 | Ariannol | Buddsoddiad Sector Cyhoeddus | Swyddfa Rheoli Portffolio | Os na chaiff buddsoddiad y sector cyhoeddus ei sicrhau, mae risg na chaiff prosiectau eu cyflawni neu y cânt eu cyflawni ar raddfa lai a fyddai'n effeithio ar y buddion i'r rhanbarth. | 4 | 4 | 16 | ↔ | Mae holl bartneriaid Uchelgais Gogledd Cymru wedi llofnodi'r Cynllun Twf a Chytundeb Llywodraethu.<br><br>Datblygu achosion busnes prosiectau a chytundebau cadarn ar gyfer cyllid y Cynllun Twf<br><br>Cefnogi noddwyr prosiect gyda ceisiadau am arian cyhoeddus lle'n briodol | Wedi cwblhau<br><br>N/A<br><br>Yn ôl yr angen | Partneriaid<br><br>PMO/SROs y Prosiect<br><br>PMO | 3 | 4 | 12 | ↔ | Agored | Risg wedi ei adolygu, dim newid i'r sgô risg gros neu gweddilliol. Nifer o Achosion Busnes Llawn dan arweiniad y sector gyhoeddus gael ei cymeradwyo.<br><br>Mae'r risg hefyd yn gysylltiedig gyda R020 Rheoli Cymhorthdal | 24/03/2026 |
| R013 | 21.10.2020 | Effaith Cymdeithasol ac Enw da | Newid Gwleidyddol | Cyfarwyddwr Portffolio | Os na chaiff rhanddeiliaid eu rheoli'n effeithiol, ceir risg y gallai newid gwleidyddol effeithio ar gefnogaeth i'r portffolio, y rhaglenni a'r prosiectau. | 4 | 4 | 16 | ↔ | Ymgysylltu cyson gyda gwleidyddion a swyddogion Llywodraeth Cymru a'r DU a llywodraeth leol.<br><br>GA2 a'r Cytundeb Terfynol i gadarnhau ymrwymiadau'r holl bartïon.<br><br>Aelodau newydd i gael eu briffio ar Bortffolio'r Cynllun Twf yn dilyn y newid mewn arweinyddiaeth<br><br>Ymgysylltu â Gweinidogion newydd Llywodraeth y DU | N/A<br><br>Wedi cwblhau<br><br>Wedi cwblhau<br><br>Parhaus | Uchelgais Gogledd Cymru, PMO<br><br>Uchelgais Gogledd Cymru<br><br>PMO<br><br>PMO | 2 | 4 | 8 | ↔ | Agored | Adolygwyd y risg. Cynnydd yn y tebygolrwydd gweddilliol yn adlewyrchu agosrwydd yr etholiadau ym mis Mai. Mae'r risg yn parhau i fod yn isel ar hyn o bryd. Mae etholiadau yn 2026 a 2027 yn golygu y gall y risg hon godi yn y dyfodol ac y bydd risg i'w hail-adolygu ar ôl etholiadau ym mis Mai 2026 | 24/03/2026 |

| Rhif y Risg | Dyddiad Codi'r Risg | Categori'r Risg | Enw'r Risg | Perchennog y Risg | Disgrifiad o'r Risg | Graddfa Risg Gros P | I | Sgôr | Tuedd | Camau Lliniaru | Dyddiadau Cwblhau | Perchennog y Cam | Graddfa Risg P | I | Sgôr | Tuedd | Statws (agored/cae | Sylwadau | Dyddiad y diweddariad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| R014 | 22.10.2020 | Ariannol | Twyll | Cyfarwyddwr Portffolio | Os na chaiff prosesau priodol eu rhoi yn eu lle a'u rheoli, yna gallai'r portffolio fod yn ddarostyngedig i hawliadau twyllodrus a fyddai'n arwain at gamddefnydd o gyllid cyhoeddus. | 4 | 4 | 16 | ↔ | Prosiectau i gael prosesau monitro ariannol cadarn yn eu lle gan gynnwys gwiriadau diwydrwydd ar noddwyr prosiect a derbynwyr yr arian.<br><br>PMO i adolygu'r hawliadau a gyflwynir cyn eu pasio nhw at y corff atebol i'w talu<br><br>Cod ymddygiad a pholisi gwrthdaro buddiannau wedi'u hymgorffori fel rhan o'r Cytundeb Llywodraethu<br><br>Caiff Cofrestr Gwrthdrawiad Buddiannau ei gadw ar gyfer pob rhaglen, prosiect a'r grwpiau ymgynghorol. | N/A<br><br>N/A<br><br>Wedi cwblhau<br><br>N/A | PMO<br><br>PMO<br><br>Swyddog Monitro<br><br>PMO | 2 | 4 | 8 | ↔ | Agored | Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu risg weddilliol. Mae'r risg weddilliol yn parhau i fod yn isel oherwydd y prosesau sydd mewn lle gan Ambition Gogledd Cymru. Cynhaliwyd rownd arall o hyfforddiant twyll ar gyfer y PMO a Bwrdd Cyflwyno Busnes ym Mai 2024.<br><br>O 2025 bydd prosiectau mewn cyflwyniad sy'n cynnwys cynlluniau grant/cyfandir yn cael eu rheoli yn unol â dull PMO o ddiwylliant addas.<br><br>Gwasanaeth diwylliant addas Llywodraeth y DU 'Spotlight' a gyflwynwyd i'r PMO o 2026 i gefnogi adolygiadau diwylliant addas. | 24/03/2026 |
| R015 | 22.10.2020 | Effaith Cymdeithasol ac Enw da | Gwireddu Buddion | Swyddfa Rheoli Portffolio | Os na chaiff buddion prosiectau eu gwireddu, ceir risg y gallai'r Cynllun Twf yn gyffredinol fethu gwireddu'r buddion sydd wedi'u nodi o fewn yr achosion busnes. | 4 | 4 | 16 | ↔ | Bydd pob rhaglen a phrosiect yn gyfrifol am reoli buddion drwy Gynllun Gwireddu Buddion.<br><br>Adroddiadau cryno misol i'r Bwrdd Rhaglen i fonitro gwireddu buddion<br><br>Egwyddorion Caffael wedi'u mabwysiadu gyda ffocws ar fuddion cymunedol a gwerth cymdeithasol<br><br>Canllawiau Gwireddu Buddion wedi'u datblygu ac yn cael eu dosbarthu i arianwyr prosiectau i'w defnyddio yn achosion busnes y prosiectau<br><br>System Impact wedi ei lansio a thimau prosiect wedi hyfforddi. | N/A<br><br>Misol<br><br>Wedi cwblhau<br><br>N/A<br><br>N/A | PMO, SROs y Rhaglenni a'r Prosiectau<br><br>PMO<br><br>PMO<br><br>PMO<br><br>PMO | 3 | 3 | 9 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. Amlygodd adolygiad sicrwydd diweddar waith y PMO ar wireddu buddion fel arfer da a fydd yn sicrhau bod y strwythurau a'r systemau yn eu lle i helpu prosiectau i wireddu ac adrodd ar wireddu buddion.<br><br>Cyfnod gwireddu buddion yn parhau i leihau, er hynny mae'r pwyslais ar gyflawni ar gyfer prosiectau rhestr wrth gefn yn lleihau y risg (weler R002) | 24/03/2026 |
| R018 | 01.10.2020 | Ariannol | Cyllid refeniw | Swyddfa Rheoli Portffolio ac Arianwyr y Prosiect | Os na fydd cyllid refeniw digonol yn ei le i gefnogi gweithgareddau'r Bwrdd Uchelgais a chyflawni'r Cynllun Twf, yna mae'n bosib yr effeithir ar gyflawniad prosiectau a chyrraedd amcanion gwario a buddion. | 4 | 5 | 20 | ↔ | Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi ymestyn contractau tymor penodol. Parhau i ymchwilio i ddatrysiadau tymor hwy<br><br>Partneriaid ac arianwyr prosiectau yn gyfrifol am sicrhau cyllid refeniw i gefnogi prosiectau nad ydynt yn cael eu harwain gan y Uchelgais Gogledd Cymru<br><br>PMO yn gweithio i adnabod cyfleoedd ariannu ychwanegol ar gyfer prosiectau dan arweiniad Uchelgais Gogledd Cymru<br><br>PMO i gyfalafu posib costau cyflog sy'n gysylltiedig a cyflawni prosiect lle'n briodol ac yn unol ar canllawiau.<br><br>Haenen uchaf y Cynllun Twf wedi ei gynyddu i 2.15%, a galluogi ymestyn cytundebau dros dro.<br><br>Cais SPF i'r 6 Awdurdod Lleol wedi bod yn llwyddiannus. | N/A<br><br>N/A<br><br>N/A<br><br>N/A<br><br>Wedi gwblhau<br><br>N/A | PMO<br><br>PMO, SRO y Prosiect<br><br>PMO, SRO y Prosiect<br><br>PMO<br><br>PMO<br><br>PMO | 3 | 4 | 12 | ↔ | Agored | Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol.<br><br>Cyllideb ar gyfer 26/76 wedi ei gymeradwyo gan y Cyd-Bwyllgor. | 24/03/2026 |
| R019 | 01.10.2020 | Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau | Capasiti Sgiliau a Chadwyn Gyflenwi | Swyddfa Rheoli Portffolio | Os nad oes gan y gadwyn gyflenwi ranbarthol gapasiti i gyflawni prosiectau, yna gellid effeithio ar gyflawniad prosiectau a gallai buddion rhanbarthol fod yn is. | 4 | 4 | 16 | ↔ | Achosion busnes a chynlluniau gweithredu prosiectau i ddangos yn glir y risgiau i gyflawni prosiectau a'r mesurau lliniaru, yn cynnwys risgiau cadwyn gyflenwi.<br><br>RSP yn gweithio gyda'r PMO i adnabod heriau sgiliau / cadwyni cyflenwi rhanbarthol ac adnabod mesurau lliniaru<br><br>Cyllid ychwanegol wedi'i sicrhau ar gyfer gweithgaredd sgiliau<br><br>Prosiectau i gynnal ymgysylltu â'r farchnad yn gynnar lle bo hynny'n briodol | N/A<br><br>N/A<br><br>Yn ei le<br><br>N/A | PMO<br><br>PMO<br><br>PMO<br><br>Arianwyr y Prosiectau | 3 | 4 | 12 | ↔ | Agored | Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. Mae cydweithio agos rhwng y PMO a'r RSP ar sgiliau a'r gadwyn gyflenwi yn allweddol i leihau tebygolrwydd y risg hon. Mae hwn yn weithgaredd parhaus i sicrhau bod y capasiti a'r sgiliau yn y rhanbarth i fanteisio ar y cyfleoedd drwy'r Cynllun Twf. | 24/03/2026 |
| R020 | 03.10.2022 | Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau | Y Cyd-destun Economaidd | Swyddfa Rheoli Portffolio | Os oes newidiadau sylweddol i economi'r DU (e.e. yr argyfwng costau byw a'r argyfwng diogelwch ynni), gall hyn effeithio'n andwyol ar achosion strategol ac economaidd rhaglenni a phrosiectau. | 3 | 5 | 15 | ↔ | Achosion busnes a chynlluniau gweithredu prosiectau i ddangos yn glir y risgiau i gyflawni prosiectau, yn cynnwys effaith datblygiadau economaidd diweddar | N/A | PMO, Arianwyr y Prosiectau | 3 | 5 | 15 | ↔ | Agored | Risg wedi'i hadolygu: Dim newidiadau ar unwaith. Mae'r gwrthdaro parhaus yn y Dwyrain Canol yn cyflwyno risg bellach ar gadwyni cyflenwi ac mae cydnabyddwyr y prosiect ar hyn o bryd yn cael eu ymgynghori ar eu hasesiad o'r risg hon. Bydd angen ailasesu'r risg weddilliol ar draws y Portffolio pan fydd manylion pellach ar gael.<br><br>Mae materion byd-eang sy'n datblygu sy'n effeithio ar gadwyni cyflenwi a marchnad ynni yn debygol o effeithio ar gostau yn y tymor byr i'r tymor canol. | 24/03/2026 |
| R016 | 22.10.2020 | Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau | Sicrwydd | Pennaeth Gweithrediadau | Os na chaiff prosesau sicrwydd y cytunir arnynt eu dilyn, ceir risg y gallai cymeradwyo prosiectau gael ei effeithio a gallai arwain at atal/gohirio taliadau grant y llywodraeth. | 3 | 5 | 15 | ↔ | Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig (IAAP) wedi'i gytuno gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r Cynllun Twf Terfynol.<br><br>Parhau i ymgysylltu â Hwb Sicrwydd Llywodraeth Cymru i fireinio a diweddaru'r Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig (IAAP)<br><br>Arweinydd sicrwydd y PMO i gydlynu cyflawni sicrwydd yn unol â'r IAAP<br><br>Proses wedi symleiddio ar gyfer sicrwydd wedi gyflwyno ar gyfer prosiectau newydd. | Wedi cwblhau<br><br>Chwarterol<br><br>N/A | PMO<br><br>PMO<br><br>PMO | 2 | 4 | 8 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. | 24/03/2026 |

| Rhif y Risg | Dyddiad Codi'r Risg | Categori'r Risg | Enw'r Risg | Perchennog y Risg | Disgrifiad o'r Risg | Graddfa Risg Gros | | | Tuedd | Camau Lliniaru | Dyddiadau Cwblhau | Perchennog y Cam | Graddfa Risg | | | Tuedd | Statws (agored/cae | Sylwadau | Dyddiad y diweddariad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | P | I | Sgôr | | | | | P | I | Sgôr | | | | |
| R017 | 22.10.2020 | Ariannol | Rheolaeth Ariannol | Swyddog a151 | Os na chaiff trefniadau ariannol priodol eu rhoi yn eu lle, yna gallai cyflawni'r cynllun twf, tynnu arian grant i lawr a chlustnodi cyllid fod mewn perygl. | 3 | 4 | 12 | ↔ | Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn defnyddio prosesau ariannol presennol Cyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Lletya.<br><br>Bydd achosion busnes y prosiectau yn nodi mesurau rheoli risg, masnachol ac ariannol manwl ar lefel prosiect i reoli cyllid<br><br>Caiff trefniadau adrodd perfformiad, risg ac ariannol misol cadarn eu sefydlu ar gyfer yr holl brosiectau<br><br>Proses hawliadau ariannol gadarn wedi'i sefydlu ar gyfer tynnu arian i lawr | N/A<br><br>N/A<br><br>Misol<br><br>N/A | PMO<br><br>PMO, SRO y Prosiect<br><br>PMO, SRO y Prosiect<br><br>PMO | 2 | 3 | 6 | ↔ | Agored | Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. Mae risg gweddilliol yn parhau i fod yn isel oherwydd y prosesau sydd ar waith gan Uchelgais Gogledd Cymru a'r cytundebau ariannu gyda noddwyr prosiectau. | 24/03/2026 |
| R020 | 26/04/2024 | Rheoleiddio | Rheoli Cymhorthdal | Swyddfa Rheoli Portffolio | Cysylltedig gyda risg buddsoddiad Sector Breifat R008: Os na fydd asesiadau rheoli cymhorthdal yn cael ei cadarnhau gall cymeradwyo ariannu gael ei oedi neu ei beryglu. | 3 | 4 | 12 | ↔ | Adolygu opsiynau ar gyfer dim buddsoddiad cymhorthdal e.e. benthyciadau masnachool<br><br>Trafod manylion ac asesiadau gyda noddwyr prosiect mor fuan a sydd bosibl (taflen telerau)<br><br>Ymgynghori gyda cymorth cyfreithiol yn fuan ar asesiadau Rheoli Cymhorthdal<br><br>Arweinydd Rheoli Cymhorthdal a cefnogaeth wedi ei adnabod o fewn y Swyddfa Rheoli Portffolio | Fel camau SOC-FBC | Rheolwyr Rhaglen | 3 | 3 | 9 | ↔ | Agored | Risg wedi ei adolygu. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. Caiff heriau wrth gwblhau asesiadau 7 Egwyddor eu cefnogi gan gyngor cyfreithiol arbenigol allanol ond mae angen mynd i'r afael â'r rhain yn gynharach yn y broses sicrwydd, e.e. ar gam y Dalen Telerau cyn cwblhau CDB. | 24/03/2026 |
| R021 | 26/04/2024 | Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau | Mudo i'r CBC | Cyfarwyddwr Portffolio | Trosglwyddo y Swyddfa Rheoli Portffolio i'r CBC yn 2024. Os na fydd staffio ac trefniadau prosesau yn cael ei rheoli yn effeithiol bydd risg i weithrediadau a gall bod oedi gyda cyflawni prosiectau. | 3 | 4 | 12 | ↔ | Ymgynghoriad TUPE gyda staff<br><br>Effaith ar bolisiau a phrosesau i gael ei adolygu cyn trosglwyddo yn llawn | Wedi gwblhau | Cyfarwyddwr Portffolio | 2 | 3 | 6 | ↔ | Agored | Risg newydd. Cwblhawyd y cyfnod pontio ar Ebrill 25<br><br>Dim newidiadau i sgoriau risg gros na gweddilliol. Mae gwaith ar y gweill i adolygu effeithiau posibl a chytuno ar bolisïau a phrosesau ar gyfer y CBC newydd yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais. | 24/03/2026 |

IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD

15 Mai 2026

| | |
|---|---|
| TEITL: | Sefyllfa alldro Refeniw a Chyfalaf ar gyfer 2025/26 |
| AWDUR: | Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC)<br>Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid |

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd sefyllfa derfynol y Cynllun Twf, y Parth Buddsoddi a'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ar gyfer refeniw a chyfalaf yn 2025/26.

1.2. Cyflwynwyd sefyllfa alldro'r Cynllun Twf i'r Bwrdd Portffolio ar 24 Ebrill 2026. Bydd y Cynllun Twf (sydd hefyd yn cynnwys y Gronfa Ffyniant Gyffredin a Chynllun Ynni Ardal Leol), Parth Buddsoddi a'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, ynghyd â'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig, Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth, yn cael eu cyflwyno i'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 4 Mehefin 2026 cyn gofyn am gymeradwyaeth gan Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (CBC) yn ei gyfarfod ar 19 Mehefin 2026.

## 2. Y PENDERFYNIADAU A GEISIR

2.1. I nodi sefyllfa alldro'r Cynllun Twf ar gyfer 2025/26 (Atodiad 1). Oherwydd y tanwariant a adroddwyd, mae hyn yn cynnwys peidio â ddefnyddio £60,990 o’r gronfa wrth gefn wedi’i chlustnodi a defnyddio swm llai o £867,731 o grant Cynllun Twf Gogledd Cymru i ddangos sefyllfa niwtral ar gyfer y flwyddyn.

2.2. I nodi sefyllfa cronfeydd y Cynllun Twf (Atodiad 2).

2.3. I nodi adolygiad cyfalaf diwedd flwyddyn y Cynllun Twf ar 31 Mawrth 2026 (Atodiad 3).

2.4. I nodi sefyllfa alldro y Parth Buddsoddi ar gyfer 2025/26.

2.5. I nodi sefyllfa alldro y Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol ar gyfer 2025/26.

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Hysbysu'r Is-bwyllgor Lles Economaidd am sefyllfa ariannol y Cynllun Twf (gan gynnwys y Gronfa Ffyniant Gyffredin a Chynllun Ynni Ardal Leol), y Parth Buddsoddi a'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ar gyfer refeniw a chyfalaf yn 2025/26.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Ar 1 Ebrill 2025, trosglwyddydd rôl a swyddogaethau y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i’r CBC, a oedd yn cynnwys staff, adnoddau, ymrwymiadau ac asedau ariannol, gan

gynnwys y Cynllun Twf a'r cyllid. Trosglwyddwyd y Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol hefyd i'r CBC ar yr un dyddiad.

4.2. Caiff y CBC ei ystyried yn "gorff perthnasol mwy" yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd). Golyga hyn y bydd Datganiad Cyfrifon blynyddol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifo Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig yn cael ei gynhyrchu ar gyfer 2025/26 a'i gyflwyno maes o law.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

### Cynllun Twf (gan gynnwys y Gronfa Ffyniant Gyffredin a Chynllun Ynni Ardal Leol)

5.1. Mae Atodiad 1 yn darparu dadansoddiad manwl o'r gwariant a'r incwm gwirioneddol fesul pennawd yn erbyn cyllideb 2025/26.

5.2. Y sefyllfa alldro net terfynol ar gyfer 2025/26 oedd tanwariant o £543,259, ac mae hyn wedi gostwng o'r tanwariant o £618,025 a ragwelwyd yn adolygiad diwedd Rhagfyr 2025. Roedd y gyllideb ac adolygiad Rhagfyr 2025 yn cynnwys £412,085 o'r gronfa adnoddau; fodd bynnag, fel y dangosir yn Atodiad 1, defnyddiwyd £79,162 ac mae hyn wedi ariannu rolau llywodraeth ychwanegol. Mae'r gostyngiad yn y defnydd o'r gronfa adnoddau wedi gwrthbwyso tanwariant pellach mewn penawdau cyllideb gwahanol.

5.3. Er mwyn gadael sefyllfa niwtral am y flwyddyn, gofynnir i'r CBC beidio â defnyddio £60,990 o'r gronfa wrth gefn wedi'i glustnodi ac i gymeradwyo swm llai o £867,731 (o'i gymharu â'r gyllideb wreiddiol o £1,350,000) o'r grant Cynllun Twf i'w ddefnyddio i ariannu'r gwariant refeniw yn 2025/26.

<u>Swyddfa Rheoli Portffolio</u>

5.4. Mae tanwariant o £761,218 ar y Swyddfa Rheoli Portffolio ac mae'r prif danwariant yn cael ei ddangos ar y pennawd gwariant gweithwyr a rolau llywodraeth ychwanegol.

5.5. Y tanwariant ar y pennawd gwariant gweithwyr yw £655,371 ac mae hyn oherwydd bod rhai costau staff a oedd wedi'u cynnwys yn y gyllideb graidd wedi'u hariannu gan ffynonellau eraill.

5.6. Mae bron i £90,000 o'r tanwariant yn deillio o staff sy'n gweithio cyfran o'u hamser ar y CBC, mae tua £39,000 yn ymwneud â staff sy'n gweithio ar y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol ac mae tua £156,400 yn ymwneud â staff a ariannwyd gan brosiectau Cynllun Twf Uchelgais Gogledd Cymru.

5.7. Defnyddiwyd grantiau Cronfa Ffyniant Gyffredin a Chynllun Ynni Ardal Leol a dderbyniwyd hefyd i ariannu costau staff, sydd gyda'i gilydd yn cyfrannu bron i £153,300 o'r tanwariant.

5.8. Ddaru swyddi gwag yn ystod y flwyddyn hefyd arwain at danwariant pellach o tua £254,500 mewn gwariant gweithwyr. Mae rhan o'r tanwariant hwn wedi'i ddefnyddio i ariannu costau ymgynghorydd allanol dros dro i gefnogi'r Rhaglen Ynni y tu hwnt i'r grant Cynllun Ynni Ardal Leol.

5.9. Cafodd rolau llywodraeth ychwanegol eu llenwi yn ystod y flwyddyn, gan arwain at danwariant o £127,518.

5.10. Ddaru recriwtio ychwanegol, gan gynnwys recriwtio Cyfarwyddwr Portffolio, arwain at orwariant o £20,932 mewn costau hysbysebu ac asesu ymgeiswyr.

5.11. Roedd gorwariant o £11,610 ar gyflenwadau a gwasanaethau oherwydd uwchraddio offer ac offer ar gyfer staff newydd.

5.12. Mae'r pennawd yswiriant yn dangos gorwariant o £11,800 gan fod y rhan fwyaf o'r gost wedi'i dosrannu rhwng y CBC a'r Cynllun Twf yn seiliedig ar gostau cyllideb gweithwyr. Er bod y gyllideb systemau wedi'i chynnwys i ariannu costau'r System Rheoli Pwyllgorau (disgwylir i hyn cael ei weithredu yn 2026/27), mae gwariant wedi'i wneud ar blatfform a datblygu system rheoli prosiectau.

Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol

5.13. Y tanwariant terfynol ar y pennawd hwn yw £82,056 gan fod y Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng y CBC a Chyngor Gwynedd eto i'w gwblhau. Dosrannwyd cymorth ariannol a chyfreithiol i'r Parth Buddsoddi hefyd yn ystod y flwyddyn, gan gyfrannu at y tanwariant ar gyfer y Cynllun Twf.

Cyd-bwyllgor

5.14. Mae pennawd y Cyd-bwyllgor yn dangos tanwariant o £27,456, gyda thanwariant mewn cymorth cyfreithiol allanol, ffioedd cyllidol allanol yn ogystal â'r Bwrdd Cyflawni Busnes.

Prosiectau

5.15. Y gorwariant terfynol ar y pennawd hwn yw £58,704. Mae gorwariant mewn costau cefnogaeth gyfreithiol allanol ar nifer o brosiectau yn y rhaglen gyfalaf, fodd bynnag, mae tanwariant ar gostau datblygu achosion busnes y prosiectau, cefnogaeth gyllidol allanol, cefnogaeth caffael allanol a chostau sicrwydd.

5.16. Mae penawdau cyflawni prosiectau a chyflawni prosiectau - gweithwyr yn ymwneud â gwariant ar brosiectau Cynllun Twf Uchelgais Gogledd Cymru sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd ac sy'n cael eu hystyried fel gwariant refeniw. Mae'r gwariant ar y penawdau hyn yn cael ei ariannu gan ddyraniad Cynllun Twf y prosiectau ac mae hyn yn cael ei ddangos yn yr adran Incwm.

Cynlluniau Grant

5.17. Mae'r gwariant o dan y pennawd hwn yn cynnwys prosiectau Cynllun Ynni Ardal Leol a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a ariennir gan grant ac roedd tanwariant o £31,989. Cafwyd cadarnhad yn ystod y flwyddyn ariannol y gellir hawlio'r cyllid ar gyfer y Gronfa Ffyniant Cyffredin hyd at fis Medi 2026 ac felly bydd y tanwariant o £31,986 yn cael ei wario a'i hawlio yn 2026/27.

Trosglwyddiadau i Gronfeydd

5.18. Mae'r rhan trosglwyddiadau i gronfeydd yn cynnwys £108,380 o gyfraniadau llog partneriaid a £24,679 o daliadau mynediad at gyllid ar brosiectau'r Cynllun Twf, a fydd yn cael eu trosglwyddo i'r gronfa llog i ariannu cost benthyca yn y blynyddoedd i ddod.

5.19. Yng nghyfarfod y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar 14 Chwefror 2025, cymeradwywyd cais gan y Swyddfa Rheoli Portffolio i drosglwyddo'r llog a dderbyniwyd yn

2024/25 a 2025/26 ar falansau grant Cynllun Twf Gogledd Cymru i gronfa benodol i ariannu gofynion ychwanegol y llywodraeth a chostau datblygu prosiectau o 2025/26 a chadw capasiti y Swyddfa Rheoli Portffolio am ddwy flynedd ychwanegol y tu hwnt i Mawrth 2026. Y llog a dderbyniwyd ar falansau oedd £1,833,295 a bydd £1,635,549 o'r balans hwn yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa hon (cronfa adnoddau) tra bydd y £197,746 sy'n weddill yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa llog.

Cyfraniadau Ariannu

5.20. Mae'r prif ffrydiau incwm ar gyfer 2025/26 yn cynnwys cyfraniadau partneriaid, grant Cynllun Twf Gogledd Cymru (dyraniad refeniw ac ariannu costau staff prosiectau a chostau cyflawni prosiectau), grant ynni Llywodraeth Cymru, Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, y gronfa wrth gefn wedi'i glustnodi a'r gronfa adnoddau.

5.21. Y defnydd o'r grant Cynllun Twf ar gyfer prosiectau yw £239,795 o'i gymharu â'r gyllideb o £116,675. Mae hyn oherwydd y grant yn ariannu 50% o gostau staff a oedd wedi'u hariannu 100% gan grant ynni Llywodraeth Cymru mewn blynyddoedd blaenorol, cynnydd yn nifer y staff a benodwyd ar gyfer prosiectau digidol a gwariant ar brosiectau Cynllun Twf Uchelgais Gogledd Cymru sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd.

5.22. Oherwydd bod y sefyllfa alldro net derfynol ar gyfer 2025/26 yn danwariant o £543,259, ac er mwyn gadael sefyllfa niwtral am y flwyddyn, cynigir na ddefnyddir y gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi o £60,990 (felly ar gael i'w defnyddio ar gyfer cyllidebau blynyddoedd i ddod) a'r dyraniad grant Cynllun Twf Gogledd Cymru yn cael ei leihau £482,269 o £1,350,000 i £867,731. Er bod grant Cynllun Twf Gogledd Cymru yn grant cyfalaf, mae'r un hyblygrwydd ag awdurdodau lleol wedi cael ei ddefnyddio yn y ffordd y maent yn rheoli eu cyllid cyfalaf, gyda Cyngor Gwynedd yn dyrannu y grant Cynllun Twf yn erbyn ei brosiectau cyfalaf ac yn rhyddhau gwerth refeniw cyfatebol i'r Cynllun Twf i ariannu ei wariant refeniw.

Cronfeydd wrth gefn

5.23. Mae Atodiad 2 yn dangos y symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn a'r balansau ar 31 Mawrth 2026.

5.24. Cyfanswm y balans cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi ar 31 Mawrth 2026 oedd £210,977.

5.25. Balans y gronfa prosiectau ar 31 Mawrth 2025 oedd £29,167. Yn 2024/25, talwyd costau o £123,133 yn ymwneud â'r Prosiect Ynni Lleol Glân o'r gronfa gan fod yr Achos Busnes Llawn eto i'w gymeradwyo erbyn 31 Mawrth 2025. Mae'r Achos Busnes Llawn bellach wedi'i gymeradwyo, felly mae £123,133 o grant y Cynllun Twf wedi'i drosglwyddo i'r gronfa.

5.26. Mae'r gronfa llog wedi'i neilltuo i ariannu cost benthyca yn y blynyddoedd i ddod. Ei balans ar 31 Mawrth 2026 yw £5,064,288 ac mae hyn yn cynnwys cyfraniadau llog partneriaid o £108,380, taliadau mynediad at gyllid o £24,679 a £197,746 o incwm llog ar balans y gronfa.

5.27. Dyrannwyd £412,085 o'r gronfa adnoddau i gyllideb 2025/26 ond dim ond £79,162 a ddefnyddiwyd ac roedd hyn i ariannu rolau llywodraeth ychwanegol. Arweiniodd y tanwariant ar wariant gweithwyr a chostau datblygu prosiectau a phenodi rolau llywodraeth ychwanegol yn ystod y flwyddyn at lai o gyllid ei angen o'r gronfa.

5.28. Derbyniwyd llog o £1,635,549 ar grant y Cynllun Twf a'r balans cronfa adnoddau ac felly balans y gronfa ar 31 Mawrth 2026 oedd £4,356,618. Cymeradwyodd y CBC yn ei gyfarfod ar 23 Ionawr 2026 i ddefnyddio £986,730 o'r gronfa hon fel rhan o gyllideb 2026/27.

Cyfalaf

5.29. Mae Atodiad 3 yn dangos adolygiad diwedd blwyddyn rhaglen gyfalaf y Cynllun Twf ar gyfer 2025/26.

5.30. Cyfanswm y gwariant hyd at 31 Mawrth 2026 yw £30.64m.

5.31. Mae gostyngiad net o £14.28m yn y gwariant ar gyfer 2025/26 ac mae hyn oherwydd llithriad ar brosiectau. Fodd bynnag, mae gwariant ar brosiect Cydnerth wedi digwydd yn gynt gyda chyfanswm y gwariant o £8.87m yn cael ei ddangos o dan 2025/26 yn hytrach na rhwng dwy flynedd ariannol fel yr oedd wedi'i broffilio'n wreiddiol yn y gyllideb ac felly yn lleihau'r llithriad.

5.32. Mae’r gwariant yn Atodiad 3 hefyd yn cynnwys costau cyflawni prosiectau a ddangosir yn Atodiad 1 – mae rhain yn ymwneud â phrosiectau Gronfa Ynni Glân, 4G+, LPWAN a Di-wifr Uwch.

5.33. Mae'r gyllideb o 2.15% ar gyfer cyllido refeniw yn 2025/26 hefyd wedi gostwng i £0.87m i adlewyrchu y ffigurau alldro refeniw terfynol.

## Parth Buddsoddi

5.34. Cyhoeddwyd cymeradwyaeth derfynol Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam gan Lywodraethau'r DU a Chymru yng Nghyllideb 2025 a dros ddeng mlynedd y Parth Buddsoddi, mae cyfanswm o £6.4m ar gael i gefnogi gweinyddiaeth y rhaglen. O'r dyraniad hwn, dyrennir £200,000 y flwyddyn i'r CBC a £220,000 yr un i Gyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Derbyniwyd cyllid 2025/26 ym Mawrth 2026.

5.35. Mae Atodiad 4 yn darparu dadansoddiad o wariant ac incwm gwirioneddol y Parth Buddsoddi, gyda sefyllfa alldro niwtral ar gyfer 2025/26.

5.36. Mae gwariant y CBC ar y Parth Buddsoddi yn cynnwys £51,839 ar weithwyr (amser y Prif Weithredwr, Rheolwr Sgiliau Rhanbarthol a Rheolwr Prosiect Porth Sgiliau a Chyflogadwyedd), £457 ar gyflenwadau a gwasanaethau, £29,644 ar wasanaethau cefnogaeth (cyfieithu a chefnogaeth ariannol a chyfreithiol) a £131,834 ar ymgynghorwyr allanol. Dyfarnwyd £25,000 i'r CBC yn ystod y flwyddyn ariannol ar gyfer cefnogaeth ymgynghori.

5.37. Y grant Parth Buddsoddi a ddefnyddiwyd ar 31 Mawrth 2026 yw £522,831. Mae hyn yn cynnwys £200,000 o ddyraniad blynyddol y CBC a £322,831 o wariant Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

5.38. Gwariant y Parth Buddsoddi ar gyfer 2024/25 oedd £83,067 ac ariannwyd hyn gan gronfa y CBC. Mae £20,662 wedi’i ad-dalu i’r gronfa o weddill dyraniad grant blynyddol y CBC a’r llog a dderbyniwyd ar falans y grant yn 2025/26. Bydd y £62,405 sy’n weddill yn cael ei ad-dalu o log a dderbyniwyd yn 2026/27.

Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol

5.39. Mae Atodiad 5 yn darparu dadansoddiad o wariant ac incwm gwirioneddol y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn erbyn ei chyllideb 2025/26.

5.40. Mae'r alldro yn sefyllfa niwtral, gyda'r gwariant o £290,000 yn cael ei ariannu gan grant Llywodraeth Cymru.

5.41. Roedd £346,422 yn y gronfa sgiliau ar 31 Mawrth 2026 i ariannu ymrwymiadau yn y maes sgiliau yn y blynyddoedd dilynol.

## 6. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD

6.1. Cyflwynwyd atodiadau'r Cynllun Twf i'r Bwrdd Portffolio ar 24 Ebrill 2026.

## 7. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

7.1. Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi bod cyd-bwyllgor o ddau neu fwy o awdurdodau (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae adran 13 y Ddeddf yn mynnu bod y cyrff hyn yn cynnal cyfrifon sy'n ddarostyngedig i archwilio gan archwilydd allanol a gymeradwyir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

7.2. Mae'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) yn mynnu bod yr holl Gyd-bwyllgorau yn paratoi cyfrifon diwedd blwyddyn. Lle mae'r Incwm neu wariant blynyddol dros £2.5m, pennir bod y cyd-bwyllgor yn "gorff perthnasol mwy" a bydd angen paratoi Datganiad Cyfrifon blynyddol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Cyfrifo mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig.

---

ATODIADAU:

**Atodiad 1** Sefyllfa alldro refeniw y Cynllun Twf 2025/26

**Atodiad 2** Sefyllfa cronfeydd y Cynllun Twf

**Atodiad 3** Sefyllfa cyfalaf y Cynllun Twf

**Atodiad 4** Sefyllfa alldro y Parth Buddsoddi 2025/26

**Atodiad 5** Sefyllfa alldro y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol 2025/26

---

YMATEB SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Mae'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'w nodi ac mae'n rhan o drefniadau adrodd ariannol a sicrwydd y CBC ar gyfer 2025/26. Mae'r fframwaith cyfreithiol perthnasol wedi'i nodi yn yr adroddiad, gan gynnwys y gofyniad i'r CBC, fel corff perthnasol mwy, baratoi cyfrifon blynyddol yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a'r cod cyfrifo perthnasol.

Nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol uniongyrchol sy'n deillio o'r argymhellion. Dylai swyddogion barhau i sicrhau bod y defnydd o gyllid grant, cronfeydd wrth gefn a chyllid prosiectau yn gyson â'r amodau grant perthnasol, cyllidebau cymeradwy, dirprwyaethau a rheolau gweithdrefn ariannol y CBC.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad.

Sefyllfa Ariannol y Cynllun Twf 2025/26 — Atodiad 1

| Gwariant | Cyllideb Sylfaenol (£) | Trosglwyddiadau Unwaith ac am byth (£) | Cyfanswm Cyllideb (£) | Sefyllfa Terfynol 2025/26 (£) | Gor / (Tan)wariant (£) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Swyddfa Rheoli Portffolio** | | | | | |
| Gwariant Gweithwyr (Cyflog, Y.G. a Blwydd-dal) | 1,558,280 | 0 | 1,558,280 | 902,909 | (655,371) |
| Rolau Llywodraeth Ychwanegol | 206,320 | 0 | 206,320 | 79,162 | (127,158) |
| Ymgynghorydd Allanol | 0 | 0 | 0 | 22,677 | 22,677 |
| Hysbysebu ac Asesu Ymgeiswyr | 2,500 | 0 | 2,500 | 23,432 | 20,932 |
| Teithio a Chynhaliaeth | 10,000 | 0 | 10,000 | 5,464 | (4,536) |
| Hyfforddiant | 18,000 | 0 | 18,000 | (577) | (18,577) |
| Ymgysylltu a Chyfarfodydd | 10,000 | 0 | 10,000 | 4,889 | (5,111) |
| Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus | 25,000 | 0 | 25,000 | 23,060 | (1,940) |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 15,000 | 0 | 15,000 | 26,610 | 11,610 |
| Eiddo | 36,000 | 0 | 36,000 | 30,094 | (5,906) |
| Datblygu Portffolio a Rhaglenni | 30,000 | 0 | 30,000 | 21,000 | (9,000) |
| Yswiriant | 4,130 | 0 | 4,130 | 15,930 | 11,800 |
| Systemau | 9,540 | 0 | 9,540 | 8,902 | (638) |
| **Cyfanswm Swyddfa Rheoli Portffolio** | **1,924,770** | **0** | **1,924,770** | **1,163,552** | **(761,218)** |
| **Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol** | | | | | |
| Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid | 113,330 | 0 | 113,330 | 65,108 | (48,222) |
| Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro) | 44,980 | 0 | 44,980 | 20,263 | (24,717) |
| Cefnogaeth Democratiaeth | 28,430 | 0 | 28,430 | 25,697 | (2,733) |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 48,350 | 0 | 48,350 | 45,509 | (2,841) |
| Technoleg Gwybodaeth | 28,440 | 0 | 28,440 | 24,897 | (3,543) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol** | **263,530** | **0** | **263,530** | **181,474** | **(82,056)** |
| **Cyd-bwyllgor** | | | | | |
| Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol | 18,000 | 0 | 18,000 | 13,116 | (4,884) |
| Ffioedd Cyllidol Allanol | 10,000 | 0 | 10,000 | 2,428 | (7,572) |
| Ffi Archwilio Allanol | 28,350 | 0 | 28,350 | 28,350 | 0 |
| Bwrdd Cyflawni Busnes | 15,000 | 0 | 15,000 | 0 | (15,000) |
| **Cyfanswm Cyd-bwyllgor** | **71,350** | **0** | **71,350** | **43,894** | **(27,456)** |
| **Prosiectau** | | | | | |
| Datblygu Achosion Busnes y Prosiectau | 150,000 | 0 | 150,000 | 70,095 | (79,905) |
| Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol | 150,000 | 0 | 150,000 | 187,114 | 37,114 |
| Cefnogaeth Gyllidol Allanol | 50,000 | 0 | 50,000 | 810 | (49,190) |
| Cefnogaeth Caffael Allanol | 50,000 | 0 | 50,000 | 0 | (50,000) |
| Sicrwydd | 50,000 | 0 | 50,000 | 10,890 | (39,110) |
| Cyflawni Prosiectau | 0 | 0 | 0 | 24,188 | 24,188 |
| Cyflawni Prosiectau - Gweithwyr | 0 | 0 | 0 | 215,607 | 215,607 |
| **Cyfanswm Prosiectau** | **450,000** | **0** | **450,000** | **508,704** | **58,704** |
| **Cynlluniau grant** | | | | | |
| Gwariant gweithwyr - Prosiect Ynni Ardal Leol | 0 | 80,040 | 80,040 | 87,292 | 7,252 |
| Costau cysylltiedig eraill - Prosiect Ynni Ardal Leol | 0 | 10,310 | 10,310 | 2,011 | (8,299) |
| Ymgynghorydd Allanol - Prosiect Ynni Ardal Leol | 0 | 79,920 | 79,920 | 80,964 | 1,044 |
| Cynlluniau Ynni Ardal Lleol | 0 | 6,800 | 6,800 | 6,800 | 0 |
| Gwariant gweithwyr - Cronfa Ffyniant Gyffredin | 0 | 196,870 | 196,870 | 197,216 | 346 |
| Costau cysylltiedig eraill - Cronfa Ffyniant Gyffredin | 0 | 16,865 | 16,865 | 16,449 | (416) |
| Cynlluniau Ffyniant Gyffredin | 0 | 230,515 | 230,515 | 198,599 | (31,916) |
| **Cyfanswm Cynlluniau grantiau** | **0** | **621,320** | **621,320** | **589,331** | **(31,989)** |
| **Trosglwyddiadau i gronfeydd** | | | | | |
| Cyfraniadau llog y Partneriaid | 108,380 | 0 | 108,380 | 108,380 | 0 |
| Tâl at Mynediad Gyllid | 0 | 0 | 0 | 24,679 | 24,679 |
| Llog ar falansau | 0 | 0 | 0 | 1,833,295 | 1,833,295 |
| **Cyfanswm trosglwyddiadau i gronfeydd** | **108,380** | **0** | **108,380** | **1,966,354** | **1,857,974** |
| **Cyfanswm Gwariant** | **2,818,030** | **621,320** | **3,439,350** | **4,453,309** | **1,013,959** |

**Sefyllfa Ariannol y Cynllun Twf 2025/26** **Atodiad 1**

| Incwm | Cyllideb (£) | Trosglwyddiadau Unwaith ac am byth (£) | Cyfanswm Cyllideb (£) | Sefyllfa Terfynol 2025/26 (£) | Gor / (Tan)wariant (£) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfraniadau Ariannu** | | | | | |
| **Cyfraniadau Partneriaid** | | | | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (58,730) | 0 | (58,730) | (58,730) | 0 |
| Cyngor Sir Ddinbych | (58,730) | 0 | (58,730) | (58,730) | 0 |
| Cyngor Sir y Fflint | (58,730) | 0 | (58,730) | (58,730) | 0 |
| Cyngor Gwynedd | (58,730) | 0 | (58,730) | (58,730) | 0 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (58,730) | 0 | (58,730) | (58,730) | 0 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (58,730) | 0 | (58,730) | (58,730) | 0 |
| Prifysgol Bangor | (29,380) | 0 | (29,380) | (29,380) | 0 |
| Prifysgol Wrecsam | (29,380) | 0 | (29,380) | (29,380) | 0 |
| Coleg Cambria | (29,380) | 0 | (29,380) | (29,380) | 0 |
| Grŵp Llandrillo Menai | (29,380) | 0 | (29,380) | (29,380) | 0 |
| **Cyfraniadau Atodol Awdurdodau Lleol** | | | | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 |
| Cyngor Sir Ddinbych | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 |
| Cyngor Sir y Fflint | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 |
| Cyngor Gwynedd | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 |
| **Cyfraniadau llog y Partneriaid** | | | | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (13,420) | 0 | (13,420) | (13,420) | 0 |
| Cyngor Sir Ddinbych | (11,870) | 0 | (11,870) | (11,870) | 0 |
| Cyngor Sir y Fflint | (18,710) | 0 | (18,710) | (18,710) | 0 |
| Cyngor Gwynedd | (13,730) | 0 | (13,730) | (13,730) | 0 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (8,290) | 0 | (8,290) | (8,290) | 0 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (23,210) | 0 | (23,210) | (23,210) | 0 |
| Prifysgol Wrecsam | (10,070) | 0 | (10,070) | (10,070) | 0 |
| Grŵp Llandrillo Menai | (9,080) | 0 | (9,080) | (9,080) | 0 |
| **Eraill** | | | | | |
| Grant Cynllun Twf Gogledd Cymru | (1,350,000) | 0 | (1,350,000) | (1,350,000) | 0 |
| Grant Cynllun Twf Gogledd Cymru (Prosiectau) | (116,675) | 0 | (116,675) | (239,795) | (123,120) |
| Cyfalafu Costau Staff | (60,000) | 0 | (60,000) | 0 | 60,000 |
| Grant Ynni Llywodraeth Cymru | 0 | (177,070) | (177,070) | (177,067) | 3 |
| Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG | 0 | (444,250) | (444,250) | (412,264) | 31,986 |
| Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru | 0 | 0 | 0 | (1,036) | (1,036) |
| Tâl at Mynediad Gyllid | 0 | 0 | 0 | (24,679) | (24,679) |
| Llog ar falansau | 0 | 0 | 0 | (1,833,295) | (1,833,295) |
| Cronfa Wrth Gefn wedi'i Chlustnodi | (60,990) | 0 | (60,990) | (60,990) | 0 |
| Cronfa Adnoddau | (412,085) | 0 | (412,085) | (79,162) | 332,923 |
| **Cyfanswm Incwm** | **(2,818,030)** | **(621,320)** | **(3,439,350)** | **(4,996,568)** | **(1,557,218)** |
| **Gor / (Tan) wariant Net** | **0** | **0** | **0** | **(543,259)** | **(543,259)** |

**Sefyllfa cronfeydd y Cynllun Twf** **Atodiad 2**

| | £ |
|---|---|
| **Cyfanswm y gronfa wrth gefn ar 31 Mawrth 2025** | **(210,977)** |
| Defnydd yn 2025/26 | 0 |
| **Cyfanswm y gronfa wrth gefn ar 31 Mawrth 2026** | **(210,977)** |

| | £ |
|---|---|
| **Cyfanswm y gronfa Prosiectau ar 31 Mawrth 2025** | **(29,167)** |
| Trosglwyddiad i mewn yn 2025/26 | (123,133) |
| **Cyfanswm y gronfa Prosiectau ar 31 Mawrth 2026** | **(152,300)** |

| | £ |
|---|---|
| **Cyfanswm y gronfa llog ar 31 Mawrth 2025** | **(4,733,483)** |
| Cyfraniadau 2025/26 | (108,380) |
| Tâl at fynediad cyllid | (24,679) |
| Llog ar falansau 2025/26 | (197,746) |
| **Cyfanswm y gronfa llog ar 31 Mawrth 2026** | **(5,064,288)** |

| | £ |
|---|---|
| **Cyfanswm y gronfa adnoddau ar 31 Mawrth 2025** | **(2,800,231)** |
| Defnydd yn 2025/26 | 79,162 |
| Llog ar falansau 2025/26 | (1,635,549) |
| **Cyfanswm y gronfa adnoddau ar 31 Mawrth 2026** | **(4,356,618)** |

**Sefyllfa Cyfalaf Cynllun Twf Gogledd Cymru 2025/26** **Atodiad 3**

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr y Prosiect | 2021/22 (£m) | 2022/23 (£m) | 2023/24 (£m) | 2024/25 (£m) | 2025/26 (£m) | 2026/27 (£m) | 2027/28 (£m) | 2028/29 (£m) | 2029/30 (£m) | 2030/31 (£m) | 2031/32 (£m) | 2032/33 (£m) | 2033/34 (£m) | 2034/35 (£m) | Cyfanswm (£m) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol | Prifysgol Bangor | 0.12 | 1.66 | 0.37 | 0.00 | 0.43 | 0.38 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.96 |
| Digidol | 4G+ (Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig) | Uchelgais Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.19 | 1.92 | 2.35 | 1.57 | 0.14 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 6.17 |
| Digidol | LPWAN (Campws Cysylltiedig) | Uchelgais Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.02 | 0.65 | 0.43 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.02 | 0.02 | 0.00 | 0.00 | 1.14 |
| Digidol | Di-Wifr Uwch (Campws Cysylltiedig) | Uchelgais Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.01 | 2.08 | 6.76 | 8.56 | 2.13 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 19.54 |
| Ynni carbon isel | Cydnerth (Morlais) | Menter Môn | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.87 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.87 |
| Ynni carbon isel | Egni | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.94 | 1.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.94 |
| Ynni carbon isel | Ynni Lleol Glân | Uchelgais Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.46 | 5.00 | 6.95 | 6.20 | 6.02 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 24.63 |
| Ynni carbon isel | Hwb Hydrogen Caergybi | Menter Môn | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.80 | 2.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.80 |
| Ynni carbon isel | Canolfan Arloesi, Busnes a Sgiliau Trawsfynydd | Cyngor Gwynedd | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.20 | 7.80 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 10.00 |
| Tir ac eiddo | Safle cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | NWH Ltd (Jones Bros) | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.00 | 4.94 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 6.94 |
| Tir ac eiddo | Safle Strategol Parc Bryn Cegin | Uchelgais Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.29 | 5.20 | 2.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 7.49 |
| Tir ac eiddo | Porth Wrecsam | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.89 | 4.90 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 9.79 |
| Tir ac eiddo | Safleoedd ac Adeiladau Gogledd Môn | Cyngor Sir Ynys Môn | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.32 | 3.68 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 7.00 |
| Tir ac eiddo | Porth y Porthladd Rhydd | Cyngor Sir Ynys Môn | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.70 | 1.78 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.48 |
| Tir ac eiddo | Ysgol Fusnes Albert Gubay | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.98 | 2.32 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 7.30 |
| Tir ac eiddo | Padeswood | Trafnidiaeth Cymru / Network Rail | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.40 | 4.30 | 3.60 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 10.30 |
| Tir ac eiddo | Porthladd Mostyn | Port of Mostyn | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.00 |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.58 | 1.48 | 0.90 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.96 |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Prifysgol Wrecsam | 0.00 | 0.00 | 0.75 | 9.06 | 1.30 | 0.88 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 11.99 |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Cymdeithas 5.0 | Prifysgol Wrecsam | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.21 | 1.29 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.50 |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Prosiect Prince | Knauf | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.20 | 12.20 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 14.40 |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Porth Busnes | Prifysgol Wrecsam | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.64 | 4.60 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 7.24 |
| Bwyd-amaeth a thwristiaeth | Hwb Economi Wledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 5.87 | 3.79 | 2.16 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 11.82 |
| Bwyd-amaeth a thwristiaeth | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.00 | 1.20 | 1.15 | 1.08 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.43 |
| Bwyd-amaeth a thwristiaeth | Anturiaethau Cyfrifol | Zip World | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.71 | 1.49 | 2.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 6.20 |
| Bwyd-amaeth a thwristiaeth | Venue Cymru | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.25 | 2.44 | 2.31 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 5.00 |
| Prosiectau Rhestr Wrth Gefn | | | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.50 | 5.00 | 5.00 | 5.00 | 5.00 | 5.00 | 2.50 | 1.96 | 31.96 |
| **Is-gyfanswm Prosiectau** | | | **0.12** | **1.66** | **1.12** | **10.64** | **14.46** | **56.26** | **73.70** | **44.10** | **13.29** | **5.00** | **5.02** | **5.02** | **2.50** | **1.96** | **234.85** |
| 2.15% ar gyfer ariannu cyllideb refeniw y Cynllun Twf | | | 0.22 | 0.28 | 0.56 | 0.71 | 0.87 | 1.14 | 0.50 | 0.30 | 0.15 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.07 | 0.05 | 5.15 |
| **Cyfanswm Rhaglen** | | | **0.34** | **1.94** | **1.68** | **11.35** | **15.33** | **57.40** | **74.20** | **44.40** | **13.44** | **5.10** | **5.12** | **5.12** | **2.57** | **2.01** | **240.00** |
| **Cyllideb wedi ei chymeradwyo (Chwefror 2025)** | | | **0.34** | **1.94** | **1.68** | **12.51** | **29.61** | **40.86** | **59.28** | **42.58** | **22.45** | **8.10** | **8.20** | **7.33** | **5.07** | **0.05** | **240.00** |
| **Gwahaniaeth** | | | **0.00** | **0.00** | **0.00** | **-1.16** | **-14.28** | **16.54** | **14.92** | **1.82** | **-9.01** | **-3.00** | **-3.08** | **-2.21** | **-2.50** | **1.96** | **0.00** |
| **Gwariant cronnus** | | | **0.34** | **2.28** | **3.96** | **15.31** | **30.64** | **88.04** | **162.24** | **206.64** | **220.08** | **225.18** | **230.30** | **235.42** | **237.99** | **240.00** | **240.00** |

** Mae'r proffil uchod yn cynnwys gwariant ar gyfer y prosiectau canlynol sydd wedi'u cynnwys yn yr alldro refeniw: £0.06m Ynni Lleol Gl ân,  £0.15m 4G+, £0.02m LPWAN a £0.01m Di-Wifr Uwch*

**Sefyllfa Alldro y Parth Buddsoddi 2025/26** **Atodiad 4**

| | Cyllideb | Sefyllfa Terfynol 2025/26 | Gorwaraint / (Tanwariant) |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | **(£)** | **(£)** | **(£)** |
| **Gweithwyr** | | | |
| Gwariant Gweithwyr (Cyflog, Y.G. a Blwydd-dal) | 0 | 51,839 | 51,839 |
| **Cyfanswm Gweithwyr** | **0** | **51,839** | **51,839** |
| **Cyflenwadau a gwasanaethau** | | | |
| Cyflenwadau amrywiol | 0 | 21 | 21 |
| Ymgysylltu a chyfarfodydd | 0 | 436 | 436 |
| **Cyfanswm Cyflenwadau a gwasanaethau** | **0** | **457** | **457** |
| **Gwasanaethau Cefnogol** | | | |
| Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid (yn cynnwys Swyddog Adran 151) | 0 | 4,840 | 4,840 |
| Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro) | 0 | 24,363 | 24,363 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 0 | 441 | 441 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Cefnogol** | **0** | **29,644** | **29,644** |
| **Costau sefydlu** | | | |
| Parth Buddsoddi | 180,000 | 131,834 | (48,166) |
| **Cyfanswm Costau sefydlu** | **180,000** | **131,834** | **(48,166)** |
| **Gwariant Sir y Fflint a Wrecsam** | | | |
| Gwariant Sir y Fflint a Wrecsam | 0 | 322,831 | 322,831 |
| **Cyfanswm gwariant Sir y Fflint a Wrecsam** | **0** | **322,831** | **322,831** |
| **Trosglwyddiad i gronfa** | | | |
| Trosglwyddiad i gronfa y CBC | 0 | 20,662 | 20,662 |
| **Cyfanswm trosglwyddiad i gronfa** | **0** | **20,662** | **20,662** |
| **Cyfanswm Cyllideb Gwariant** | **180,000** | **557,267** | **377,267** |
| **Llywodraeth Cymru - Parth Buddsoddi** | 0 | (25,000) | (25,000) |
| **Grant Parth Buddsoddi** | (180,000) | (522,831) | (342,831) |
| **Llog** | 0 | (9,436) | (9,436) |
| **Cyfanswm Cyllideb Gwariant Net** | **0** | **0** | **0** |

**Sefyllfa Ariannol Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol 2025/26** **Atodiad 5**

| | Cyllideb | Sefyllfa Terfynol 2025/26 | Gor / (Tan)wariant |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | **(£)** | **(£)** | **(£)** |
| Gwariant Gweithwyr (Cyflog, Y.G. a Blwydd-dal) | 209,900 | 211,777 | 1,877 |
| Teithio a Chynhaliaeth | 1,500 | 3,399 | 1,899 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 45 | 3,438 | 3,393 |
| 'Light Cast' a 'Data City' | 10,000 | 12,875 | 2,875 |
| Gwefan | 10,000 | 9,000 | (1,000) |
| Eiddo | 12,000 | 9,965 | (2,035) |
| Cynlluniau Sgiliau - Gwaith Gwybodaeth Marchnad Llafyr | 12,660 | 12,736 | 76 |
| Dyraniad Grwpiau Clwstwr | 1,395 | 15 | (1,380) |
| Porth Sgiliau | 10,000 | 9,926 | (74) |
| Digwyddiadau a Chyfarfodydd | 19,500 | 5,410 | (14,090) |
| Marchnata a Chyfathrebu | 15,000 | 11,459 | (3,541) |
| **Cyfanswm Gwariant** | **302,000** | **290,000** | **(12,000)** |
| **Incwm** | **(£)** | **(£)** | **(£)** |
| Grant Llywodraeth Cymru | (290,000) | (290,000) | 0 |
| Cronfa wrth Gefn | (12,000) | 0 | 12,000 |
| **Cyfanswm Incwm** | **(302,000)** | **(290,000)** | **12,000** |
| **Gor / (Tan) wariant Net** | **0** | **0** | **0** |

IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD

15 Mai 2026

| | |
|---|---|
| TEITL: | Cynllun Twf Gogledd Cymru – Cronfa Chwyddiant Costau |
| AWDUR: | Hedd Vaughan-Evans, Cyfarwyddwr Portffolio |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw nodi'r cynnig arfaethedig i sefydlu Cronfa Chwyddiant Costau i gefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau yn ystod blwyddyn ariannol 2026-27.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Bod yr Is-bwyllgor yn cytuno i sefydlu Cronfa Chwyddiant Costau ar gyfer 2026-27 a darparu £3.96m o gyllid y Cynllun Twf i'r gronfa wrth gefn i gychwyn.

2.2. Cymeradwyo'r meini prawf a nodir yn adran 4.6 ar gyfer y Gronfa Chwyddiant Costau a'r matrics penderfyniadau dirprwyedig a nodir yn adran 4.7.

## 3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Fel y nodir yn yr adroddiad.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Ym mis Rhagfyr 2020, cytunodd Uchelgais Gogledd Cymru a Llywodraethau Cymru a'r DU ar y Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

4.2. Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn gytundeb rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru ac Uchelgais Gogledd Cymru i gyflawni buddsoddiad trawsffurfiol o £1 biliwn yn economi gogledd Cymru. Nod y Cynllun Twf yw adeiladu economi mwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yng ngogledd Cymru, gan adeiladu ar ein cryfderau i roi hwb i gynhyrchedd gan hefyd fynd i'r afael â heriau a rhwystrau economaidd hirdymor i gyflawni twf cynhwysol.

4.3. Yn unol â Chytundeb Terfynol y Cynllun Twf, caiff achosion busnes eu datblygu ar gyfer pob prosiect o fewn y Cynllun Twf, yn unol â'r canllawiau 'Gwell Achos Busnes' a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru a Thrysorlys EF. Mae pob achos busnes yn cynnwys pum achos a fydd yn rhoi sylw i gwestiynau allweddol, a dylid eu cefnogi gan weithdai.

4.4. Ym mis Rhagfyr 2022, mewn ymateb i chwyddiant costau oherwydd yr ymosodiad ar Wcráin, sefydlwyd Cronfa Cyflawni'r Portffolio gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd i gefnogi prosiectau aeddfed o fewn y portffolio i ymdrin â chwyddiant costau neu faterion hyfywedd i symud tuag at gyflawni yn ystod 2023-24.

4.5. <u>Risg Chwyddiant Costau</u>

4.5.1 Yn ei hadolygiad risg diweddaraf, nododd y Swyddfa Rheoli Portffolio bod risg gynyddol o ran fforddiadwyedd, sef pwysau chwyddiant costau oherwydd y rhyfel yn Iran. Mae'r rhyfel eisoes wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn costau ynni a thanwydd, gyda risg y bydd costau deunyddiau adeiladu, yn enwedig y rhai sy'n ddibynnol iawn ar ynni, yn cynyddu'n sylweddol pe bai'r gwrthdaro yn parhau.

4.5.2 Ar hyn o bryd mae'n risg sy'n datblygu, ond gan ddysgu o brofiad yn dilyn yr ymosodiad ar Wcráin, mae'n bwysig i'r Cynllun Twf fod yn rhagweithiol a rhoi mecanweithiau ar waith i gefnogi prosiectau er mwyn cynnal cyflymder y cyflawni. Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn ymwybodol bod rhai contractwyr eisoes yn amharod i ymrwymo i gontractau pris sefydlog oherwydd yr ansicrwydd ynghylch costau, a heb y gallu i ymateb yn hyblyg ac yn gyflym i gefnogi prosiectau, gallai'r risg, yn y senario mwyaf difrifol, arwain at oedi sylweddol ar draws nifer o brosiectau.

4.6. <u>Cronfa Chwyddiant Costau</u>

4.6.1. Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn cynnig sefydlu Cronfa Chwyddiant Costau i gefnogi prosiectau cymeradwy (cymeradwyaeth Achos Cyfiawnhad Busnes (BJC) neu Achos Busnes Llawn (FBC)) gyda chostau uwch na ellir eu lliniaru, er mwyn sicrhau bod prosiectau'n cael eu cyflawni yn ystod 2026-27.

4.6.2. Byddai £3.96m cychwynnol yn cael ei ddyrannu i'r Gronfa Chwyddiant Costau, i'w adolygu ymhen chwe mis. Byddai hyn yn gadael £28m o gyllid heb ei ddyrannu ar gael i brosiectau'r Rhestr Wrth Gefn.

4.6.3. Gallai prosiectau sy'n bodloni'r meini prawf a ganlyn wneud cais am gyllid:

a) Mae gan y prosiect BJC neu FBC cymeradwy.

b) Mae'r prosiect wedi cwblhau'r gwaith caffael, wedi nodi cyflenwr a ffafrir ac wedi cwblhau trafodaethau gyda'r cyflenwr a ffafrir i leihau costau lle bo hynny'n briodol.

c) Mae Noddwr y Prosiect wedi cytuno i delerau'r Cytundeb Cyllid Grant gydag Uchelgais Gogledd Cymru a byddai darparu cyllid ychwanegol yn galluogi noddwr y prosiect i ymrwymo i gontract ar gyfer cyflawni'r prosiect.

d) Bydd y cais am gyllid ychwanegol yn unol â'r meini prawf isod:
   - Pan fo'r Cynllun Twf yn ariannwr lleiafrifol yn y prosiect, bydd cyfraniad y Cynllun Twf tuag at y cyllid ychwanegol yn cael ei gapio ar % y gyfradd ymyrraeth bresennol.
   - Pan fo'r Cynllun Twf yn brif ariannwr y prosiect, bydd cyfraniad y Cynllun Twf tuag at y cyllid ychwanegol yn cael ei gapio ar 50% o'r cyllid ychwanegol sydd ei angen.

4.7. <u>Matrics Penderfyniadau Dirprwyedig</u>

4.7.1. O ystyried y meini prawf uchod, mae'n debygol y bydd y ceisiadau am gyllid ychwanegol yn cael eu derbyn gan brosiectau ar ddiwedd y broses gaffael ac yn dilyn trafodaethau â chontractwyr. Felly, bydd angen ystyried ceisiadau mewn modd pragmataidd ac amserol, gan y bydd cyfyngiad amser ar unrhyw gostau y cytunwyd arnynt.

4.7.2. Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio felly yn argymell cynllun dirprwyo fel y nodir isod er mwyn caniatáu i rai penderfyniadau gael eu cymeradwyo y tu allan i amserlen yr Is-bwyllgor Lles Economaidd. Ystyrir mai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o reoli'r broses, drwy wneud penderfyniadau amserol i gefnogi cyflawni prosiectau a lleihau'r risg y byddai aros am ddyddiadau pwyllgorau yn arwain at gostau cynyddol.

4.7.3. Cynigir y matrics penderfyniadau dirprwyedig isod:

| | |
|---|---|
| Is-bwyllgor Lles Economaidd | Dyfarniadau dros £500k |
| Y Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, Is-gadeirydd, Prif Weithredwr, Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro | Dyfarniadau prosiectau unigol o hyd at 10% o gyfraniad gwreiddiol y Cynllun Twf wedi'i gapio ar £500k |
| Y Cyfarwyddwr Portffolio | Dyfarniadau prosiectau unigol o hyd at £100k |

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Byddai cymeradwyo'r penderfyniad a geisir yn dyrannu £3.96m i'r Gronfa Chwyddiant Costau. Byddai'r cyllid yn dod o £31.96m o gyllid y Cynllun Twf sydd heb ei ddyrannu, gan adael £28m i gefnogi prosiectau ar y Rhestr Wrth Gefn.

6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Mae ail-ddyrannu cyllid o fewn y Cynllun Twf yn fater i'r Is-grŵp Lles Economaidd benderfynu arno o fewn yr amlen fforddiadwyedd gytûn ar gyfer y bartneriaeth a lle mae'r prosiectau'n cyflawni yn erbyn amcanion y Cynllun Twf a'i raglenni.

6.2. Byddai’r penderfyniad a geisir yn arwain at fabwysiadu'r matrics penderfyniadau dirprwyedig i weithredu'r Gronfa Chwyddiant Costau.

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Mae'r gronfa wrth gefn yn ymateb rhesymol i risg cyflawni rhaglen a nodwyd. Dylai pob dyfarniad gael ei ategu gan Hysbysiad Penderfyniad ysgrifenedig sy'n cadarnhau cydymffurfiaeth â'r meini prawf cymeradwy.

O ran gwneud penderfyniadau, mae'r Cyfarwyddwr Portffolio yn parhau i fod yn benderfynwr ar gyfer dyfarniadau dirprwyedig lle bo'n berthnasol ac, am resymau ystwythder gweithredol, dylai ymgynghori drwy sicrwydd yn unig, ac nid yn nhermau cymeradwyaeth ar wahân neu broses benderfynu ar y cyd pellach y tu allan i strwythur y pwyllgor ffurfiol.

Yn amodol ar y mesurau diogelu hynny yn cael eu hadlewyrchu yn y broses o wneud penderfyniadau, nid oes gennyf unrhyw sylwadau pellach o safbwynt y Swyddog Monitro i'r penderfyniad a geisir."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Mae'r risg o chwyddiant costau ac effaith hyn ar y gallu i gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru yn sylweddol. Bydd sefydlu Cronfa Chwyddiant Costau yn cyfrannu at liniaru'r risgiau hyn ac felly rwy'n cefnogi'r penderfyniad a geisir."

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD
15 Mai, 2026

| | |
|---|---|
| TEITL: | Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam: Prosiectau Rhaglen Arloesi Cychwynnol |
| AWDUR: | Iain Taylor |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno tri Phrosiect Arloesi'r Parth Buddsoddi i'w cymeradwyo gan yr Is-bwyllgor Lles Economaidd.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd:

2.1. Nodi'r cynnydd o ran sefydlu a gweithredu'r rhaglen Arloesi Parth Buddsoddi mewn partneriaeth agos â Phrifysgol Wrecsam, AMRC, Prifysgol Bangor a Diwydiant Sero Net Cymru.

2.2. Nodi'r broses ar gyfer datblygu'r prosiectau a gynhwysir yn yr adroddiad hwn a'u bod wedi'u cytuno fel prosiectau arloesi addas ar gyfer y Parth Buddsoddi i'w cefnogi gan Fwrdd Arloesi Gogledd Cymru.

2.3. Cymeradwyo'r cynnig prosiect a gyflwynwyd gan Brifysgol Wrecsam gwerth **£3,645,364** a dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro, Swyddog Adran 151, y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i gytuno ac ymrwymo i Gytundeb Cyllid Grant rhwng Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd a Phrifysgol Wrecsam.

2.4. Cymeradwyo'r cynnig prosiect a gyflwynwyd gan Brifysgol Bangor gwerth **£1,300,000** a dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro, Swyddog Adran 151, y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i gytuno ac ymrwymo i Gytundeb Cyllid Grant rhwng Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd a Phrifysgol Bangor sy'n adlewyrchu'n benodol gytundeb i weithredu unrhyw argymhellion sy'n deillio o Adolygiad Prosiect Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd o Brosiect Canolfan Prosesu Signalau Digidol (DSP) y Cynllun Twf.

2.5. Cymeradwyo'r cynnig prosiect a gyflwynwyd gan Ddiwydiant Sero Net Cymru gwerth **£260,000** a dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro, Swyddog Adran 151, y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i gytuno ac ymrwymo i Gytundeb Cyllid Grant rhwng Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd a Diwydiant Sero Net Cymru ar ran y Bartneriaeth Datgarboneiddio Diwydiannol lleol (gan gynnwys NEWID a Fforwm Datgarboneiddio Glannau Dyfrdwy).

3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Ceisio cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor Lles Economaidd ar gyfer y tri phrosiect cyntaf o fewn Rhaglen Arloesi Parth Sir y Fflint a Wrecsam. Mae'r prosiectau hyn yn cyd-fynd â'r prosiectau arloesi newydd a gefnogir gan y Parth Buddsoddi, sydd ar y gweill ar hyn o bryd gydag AMRC a BIC Innovation, i greu Rhaglen Arloesi Parth Buddsoddi ac archwilio dichonoldeb Sefydliad Gweithgynhyrchu Cenedlaethol Cymru yng ngogledd-ddwyrain Cymru.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae penderfyniadau ynghylch buddsoddiad Parth Buddsoddi mewn Arloesedd yn cyd-fynd â'r egwyddorion ar gyfer cyflawni Sgiliau ac yn seiliedig ar yr isod:

- Prosiectau yn cael eu cydlynu, yn ychwanegol ac yn ymroddedig i arloesedd mewn gwaith gweithgynhyrchu uwch yn Sir y Fflint a Wrecsam;
- Prosiectau yn unol â'r arfer orau mewn Arloesi a'r cyngor gan Arloesi Llywodraeth Cymru ac UKRI;
- Prosiectau yn cael eu cyflawni er budd busnesau neu bartneriaid sydd yn Sir y Fflint a Wrecsam; a
- Cyngor ac unrhyw gymorth sgiliau cysylltiedig yn hygyrch i bawb.

4.2. Bwrdd Arloesi Gogledd Cymru

Mae'r prosiectau a gynhwysir yn yr adroddiad hwn wedi cyflwyno a derbyn adborth gan Fwrdd Arloesi Gogledd Cymru. Cyflwynodd bob prosiect eu cynnig i gyfarfod y Bwrdd ar 30 Ebrill 2026.

Derbyniodd pob prosiect adborth a lle bo'n briodol, mae'r adborth wedi'i ystyried yn yr argymhellion a gynhwysir yn yr adroddiad hwn.

5. CYFLWYNIAD I BROSIECTAU RHAGLEN ARLOESI'R PARTH BUDDSODDI

5.1. Mae manylion pob prosiect wedi'u cynnwys yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn. Mae pob prosiect yn cael ei grynhoi isod.

5.2. Prifysgol Wrecsam – Crynodeb o'r Prosiect Trosglwyddo Gwybodaeth a Thalebau Sgiliau

Mae'r prosiect Trosglwyddo Gwybodaeth a Thalebau Sgiliau yn darparu cefnogaeth hyblyg, hygyrch, sy'n canolbwyntio ar fusnes i gwmnïau ledled Wrecsam a Sir y Fflint i ymgysylltu ag arbenigedd prifysgolion, cyfleusterau arbenigol a datblygiad gweithlu uwch. Mae'n ymateb yn uniongyrchol i'r heriau a nodwyd gan gyflogwyr, yn enwedig busnesau bach a chanolig, sydd o dan bwysau cynyddol i arloesi, mabwysiadu technolegau newydd a chryfhau eu sylfaen sgiliau lefel uwch i barhau i fod yn gystadleuol mewn gwaith gweithgynhyrchu uwch sy'n esblygu.

Mae'r prosiect yn cynnig cyfres strwythuredig o dalebau ar wahanol lefelau ariannol, gan alluogi busnesau i gael mynediad at ymgynghoriaeth, astudiaethau dichonoldeb, prototeipio,

ymchwil a datblygu cydweithredol, offer arbenigol a hyfforddiant lefel uchel achrededig a heb ei achredu. Mae'r model hwn yn lleihau risg, yn dileu rhwystrau ariannol a gweinyddol ac yn creu pwynt mynediad ymarferol i fusnesau a allai fod yn gweithio gyda phrifysgolion am y tro cyntaf. Trwy gynnig cefnogaeth sy'n hyblyg ac wedi'i theilwra i anghenion gweithredol gwirioneddol, mae'r prosiect yn meithrin hyder ac yn sefydlu'r sylfeini ar gyfer partneriaethau dyfnach, tymor hwy.

Bydd y prosiect yn cael ei arwain gan Brifysgol Wrecsam, ac yn cael ei gyflawni gan Brifysgol Wrecsam a Phrifysgol Bangor yn gweithio mewn partneriaeth. Bydd gwaith datblygu ac ymgysylltu busnes yn cael ei arwain drwy dîm Menter Prifysgol Wrecsam a chefnogir cyflawniad gan arbenigwyr academaidd a thechnegol o'r ddwy brifysgol. Mae'r model partneriaeth hwn yn dwyn ynghyd ehangder llawn gallu ymchwil, seilwaith arbenigol a gwybodaeth sector ar draws y ddau sefydliad. Ochr yn ochr â hyn, mae'r prosiect yn galluogi cydweithio ag asedau rhanbarthol allweddol eraill, megis AMRC Cymru, canolfannau arloesi sector-benodol, a darparwyr hyfforddiant lleol ac ati, gan sicrhau bod busnesau yn elwa o'r ecosystem ehangach a bod y prosiect yn cael mewnbwn, arbenigedd a chyfleusterau y tu hwnt i'r ddwy brifysgol lle bo hynny'n briodol.

Bydd gweithgareddau yn cael eu cyflwyno trwy sawl sianel hygyrch i sicrhau bod cynifer â phosib yn cael eu cyrraedd yn ogystal â bod yn gyfleus i gyflogwyr. Bydd cefnogaeth yn cael ei darparu ar draws campysau prifysgolion yn Wrecsam a Bangor ac ar safleoedd cyflogwyr lle bo'r angen. Mae'r amserlen gyflawni wedi'i chynllunio i greu effaith hirdymor, barhaus ar gyfer y rhanbarth. Bydd y gwaith sefydlu cychwynnol a'r datblygiad capasiti yn dechrau yn 2025/26, gyda'r rhaglen lawn yn cael ei chyflwyno o 2026/27. Bydd y gwaith cyflawni yn parhau hyd at 2029/30, gan ddarparu platfform sefydlog, aml-flwyddyn sy'n caniatáu i fusnesau symud ymlaen o weithgarwch arloesi archwiliadol i gydweithrediadau ymchwil mwy sylweddol, ymchwil a datblygu masnachol, mabwysiadu technoleg a datblygu sgiliau lefel uwch.

Mae gallu'r ddwy brifysgol, y model cyflawni hygyrch, partneriaethau rhanbarthol ehangach a'r amserlen aml-flwyddyn yn gosod y prosiect Trosglwyddo Gwybodaeth a Thalebau Sgiliau mewn sefyllfa drawsnewidiol ar gyfer cryfhau arloesedd, cynhyrchiant a gallu'r gweithlu ar draws sector gweithgynhyrchu uwch y Parth Buddsoddi.

5.3. **Prifysgol Bangor - Crynodeb o'r Prosiect DSP**

Mae prosiect BRIDGE wedi'i gynllunio'n strategol i gyflymu datblygiad pellach y Clwstwr Gweithgynhyrchu Uwch yn Sir y Fflint a Wrecsam drwy wella cysylltedd, gwytnwch a chynhyrchiant busnesau, a hefyd meithrin y gwaith o greu ecosystem ddigidol soffistigedig, wedi'i gyrru gan weithgynhyrchu uwch i'w sefydlu yn rhanbarth y Gogledd-ddwyrain/Gogledd-orllewin o ganlyniad uniongyrchol i'r twf diwydiannol sy'n cael ei arwain gan arloesedd.

Mae'r adran hon yn manylu ar amcanion BRIDGE, ei gynllun gwaith ac ystyriaethau sy'n gysylltiedig â chyflawniad. Dylid nodi bod agweddau alinio manwl, gan gynnwys sut mae pedwar allbwn critigol y prosiect yn cefnogi amcanion craidd y Parth Buddsoddi, yn cael eu cynnwys yn Adran B. Mae'r adran honno hefyd yn amlinellu aliniad BRIDGE â'r Thema

Drawsbynciol Technoleg a Chysylltedd a blaenoriaethau cenedlaethol allweddol megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Arloesi Cymru, ac uchelgais y DU i ddod yn arch-bŵer gwyddoniaeth a thechnoleg.

*Amcanion*
Mae gan BRIDGE bedwar amcan a nodir isod:

- Amcan 1: Mapiau Ffordd Digidol Strategol a Datrysiadau Technegol: Adnabod mapiau ffordd technoleg ddigidol pwrpasol ar gyfer busnesau unigol o fewn y Clwstwr, a chynnig datrysiadau technegol uniongyrchol a hirdymor i fodloni'r anghenion busnes sy'n esblygu.

- Amcan 2: Ymchwil a Datblygu sy'n cael ei yrru gan y Diwydiant ac Arloesedd Achos Defnydd 5G: Cynnal ymchwil a datblygu arweiniol-ryngwladol, sy'n cael ei yrru gan y diwydiant, i ddatblygu technegau digidol arloesol ac achosion defnydd 5G arloesol, a fydd yn ffurfio llwyfan dechnegol, hanfodol ar gyfer creu datrysiadau sy'n canolbwyntio ar ofynion ar gyfer busnesau'r Clwstwr ac arloesiadau sylweddol sy'n gallu mynd i'r afael â heriau tagfeydd sy'n gysylltiedig â 5G a thu hwnt.

- Amcan 3: Trosglwyddo Gwybodaeth a Yrrir gan Werth a Masnacheiddio: Gweithredu ffrydiau gwaith trosglwyddo gwybodaeth, sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, i gyflymu'r trawsnewidiad "ymchwil-i-refeniw". Mae hyn yn cynnwys bod yn bartner â chwmnïau gweithgynhyrchu'r Clwstwr i ddatblygu cynnyrch "newydd i'r farchnad" yn seiliedig ar dechnolegau potensial-marchnad-uchel a ddatblygwyd gan BRIDGE, ac i weithredu achosion defnydd 5G wedi'u teilwra i wella cynhyrchiant, effeithlonrwydd a chystadleurwydd gweithrediad busnes.

- Amcan 4: Sgiliau Digidol Arbenigol a Chadw Talent: Darparu rhaglen hyfforddi sgiliau digidol arbenigol drwy gydweithredu'n strategol gyda Phrifysgol Wrecsam a Choleg Cambria. Bydd hyn yn darparu llwybrau academaidd a galwedigaethol lefel uchel i arfogi gweithlu presennol y Clwstwr a phobl ifanc leol gyda'r hyblygrwydd i ddiwallu heriau Diwydiant 4.0 yn y dyfodol.

Bydd cyflawni'r amcanion hyn yn llwyddiannus yn sbarduno ecosystem ddigidol soffistigedig, uwch sy'n cael ei gyrru gan weithgynhyrchu, gan osod rhanbarth y gogledd-ddwyrain/gogledd-orllewin fel meincnod byd-eang ar gyfer twf diwydiannol a arweinir gan arloesedd.

5.4. Diwydiant Sero Net Cymru – Crynodeb o Brosiect Datgarboneiddio Gogledd-ddwyrain Cymru

Mewn ymateb i'r Strategaeth Ddiwydiannol, mae Diwydiant Sero Net Cymru a rhanddeiliaid eraill yn y rhanbarth (Systemau Ynni Sero Net ac AMRC) wedi archwilio opsiynau o gydweithio pellach rhwng y sefydliadau hyn a Chyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau a'r gweithgareddau cefnogi a restrir yng Nghynllun Gweithredu Parth y Strategaeth Ddiwydiannol a chyflymu'r gweithgareddau hyn ym Mharth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam, i ddenu buddsoddiad, yn ogystal â chynnal ymddiriedaeth y cyhoedd.

Mae'r papur hwn yn gefndir i'r cynnig a amlinellwyd a pham fod Diwydiant Sero Net Cymru (NZIW) mewn sefyllfa unigryw i gefnogi'r Parth Buddsoddi yn ei amcanion, fel rhan o gyflawni Strategaeth Ddiwydiannol ehangach y DU yng Nghymru, yn ogystal â darparu disgrifiad yn y cynnig o'r gweithgareddau y gallai NZIW gefnogi'r Parth Buddsoddi â hwy, sydd â chyswllt agos â chynllun gweithredu Parth y Strategaeth Ddiwydiannol.

Mae'r cynnig hwn yn gosod NZIW fel partner cynnull a chyflawni ar gyfer cefnogi elfennau gweithredu Cynllun Gweithredu Parth y Strategaeth Ddiwydiannol ym Mharth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam. Trwy gyfuno’r gwaith o gyflymu seilwaith, capasiti cynllunio, cefnogaeth arloesi, ac adrodd cadarn, nod y rhaglen gefnogi a amlinellir yw:

- Datgloi buddsoddiad preifat cynnar
- Cyflymu datgarboneiddio diwydiannol
- Cryfhau ysbryd cystadleuol rhanbarthol
- Darparu manteision economaidd ac amgylcheddol mesuradwy i ogledd Cymru

Bydd y cyllid y gofynnwyd amdano yn galluogi cyflawniad cydgysylltiedig, strategol sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau Strategaeth Ddiwydiannol y DU tra'n diogelu gwerth ac ymddiriedaeth hirdymor y cyhoedd.

5.5. Dadansoddiad o Argaeledd Cyllid

Mae'r ceisiadau am gyllid prosiect a amlinellir yn y papur hwn o fewn paramedrau eang y cyllidebau prosiect y cytunwyd arnynt, a gadarnhawyd gan Gynghorau Sir y Fflint a Wrecsam, ac yn unol â chyllidebau a gymeradwywyd gan yr Is-Bwyllgor Lles Economaidd wrth gymeradwyo Cynllun Cyflawni Blynyddol Blwyddyn 2.

Yn benodol:

- Mae cais Prifysgol Wrecsam o £3,645,364 yn cael ei roi o fewn y dyraniad KTP Cefnogaeth Busnes o £4.675m
- Mae cais Prifysgol Bangor o £1.3m (y mae £120k ohono yn gyfalaf) i'w ariannu o'r dyraniad o £1.018m i ymchwil a datblygu a £282k o'r rhaglenni Cefnogaeth Busnes ac Arloesi, gan ail-broffilio'r dyraniadau cyfalaf a refeniw.
- Bydd cais o £260k gan NZIW yn cael ei ariannu o gyllideb y rhaglen 'Astudiaethau'. Pe bai pwysau ar gyllideb yr astudiaethau yn y dyfodol, byddai'n bosibl cefnogi hyn o'r dyraniad KTP o ystyried y dull a gymerwyd gan y prosiect i ddefnyddio dull KTP o gyflawni.

6. PROSES SICRWYDD A DEILLIANNAU

6.1. Mae cynnwys yr adroddiad hwn wedi'i ddatblygu ar y cyd gan y prosiectau a thîm y Parth Buddsoddi. Mae amcan craidd pob prosiect wedi'i nodi yn y ddogfennaeth Porth gymeradwy y cytunwyd arnynt â Chyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth cymeradwy'r Parth Buddsoddi yn cynnwys cyfeiriad at raglen arloesi sy'n cynnwys Trosglwyddo Gwybodaeth, ymchwil Data a Chysylltedd a phartneriaethau datgarboneiddio rhanbarthol gyda Diwydiant.

6.2. Ymgynghorwyd ar brosiect Prifysgol Wrecsam gyda Phartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru a Bwrdd Arloesi Gogledd Cymru a chytunwyd arno. Mae Prosiect Prifysgol Bangor wedi'i enwi yn y ddogfennaeth Porth Parth buddsoddi a gymeradwywyd gan bartneriaid ac a argymhellwyd i'w ystyried gan Fwrdd Arloesi Gogledd Cymru. Mae tîm y Parth Buddsoddi yn cynghori bod cymeradwyo cyllid i Brifysgol Bangor yn amodol ar dderbyn y 'gwaith ymchwil manwl' a arweinir gan y Cynllun Twf i gyflawni'r prosiect DSP, a gefnogir gan y Cynllun Twf. Mae'r ystyriaethau allweddol yn ymwneud â'r elfennau ymgysylltu busnes a llywodraethu i sicrhau bod y busnesau a nodwyd drwy'r rhaglen cefnogaeth busnes Parth Buddsoddi yn cael eu cefnogi gyda mynediad i allu'r DSP.

6.3. Amlinellwyd prosiect i gefnogi partneriaid datgarboneiddio rhanbarthol yn y ddogfennaeth Porth a gymeradwywyd. Mae arweinydd y prosiect a strwythur y cynnig wedi datblygu cynigion cychwynnol gan bartneriaid NEWID a Datgarboneiddio Glannau Dyfrdwy i fod yn gais ar y cyd. Argymhellodd Bwrdd Arloesi Gogledd Cymru y dylid cymeradwyo'r prosiect.

## 7. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

7.1. Bydd angen Cytundeb Cyllid Grant ar bob prosiect rhwng Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd a noddwr y prosiect. Bydd y Cytundeb Cyllid Grant yn adlewyrchu'r gofynion ar Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd i gyfrif am gronfeydd y parth buddsoddi ac adrodd yn briodol am gyflawniad ac allbynnau.

## 8. GOBLYGIADAU ARIANNOL

8.1. Mae'r cyllid y gofynnir amdano yn unol â'r dyraniadau ymyrraeth eang a bydd cyllidebau'r prosiect y cytunwyd arnynt (a'r rhaniadau refeniw a chyfalaf y cytunwyd arnynt) yn cael eu nodi yn y Cynlluniau Cyflawni Parth Buddsoddi ac yn cael eu hadrodd i Is-bwyllgor Lles Economaidd yn y dyfodol unwaith y cytunir ar y cytundebau cyllido. Disgwylir y bydd angen mân addasiadau cyllidebol i gefnogi'r dyraniadau cyllid y gofynnwyd amdanynt.

## 9. ASESIAD EFFAITH

9.1. Bydd cyflawni'r prosiectau hyn yn unol â dull Asesu Effaith y Parth Buddsoddi.

---

ATODIADAU:

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Cynnig Prifysgol Wrecsam |
| Atodiad 2 | Cynnig Prifysgol Bangor |
| Atodiad 3 | Cynnig Diwydiant Sero Net Cymru |

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Mae'r argymhellion yn ymwneud â chytundeb ar dair prosiect Rhaglen Arloesi Parth Buddsoddi a'r awdurdod i symud ymlaen i Gytundebau Cyllid Grant gyda'r noddwyr prosiect perthnasol. Bydd y penderfyniad sylweddol yn fater i'r Is-Bwyllgor, gyda gweithredu wedi'i neilltuo i swyddogion (yn amodol ar ymgynghoriad) ar ôl i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud.

Dylai'r Cytundebau Cyllid Grant gynnwys darpariaethau priodol ar wariant hepgoradwy, allbynnau, camau allweddol, monitro, ac ati. Dylid dychwelyd unrhyw wahaniaeth sylweddol o'r cynigion cymeradwy, gwerthoedd cyllid neu drefniadau cyflwyno am gymeradwyaeth bellach.

O dan yr amddiffynfeydd hynny, nid oes gwrthwynebiad i'r argymhellion."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir ac rwy'n fodlon bod y cyllid ar gyfer y cynigion prosiect o fewn y cyllidebau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol. Byddwn yn parhau i gefnogi'r swyddogion wrth i brosiectau'r Parth Buddsoddi symud ymlaen i gyflawni".